CPS

# Adroddiad Trosedd Trais yn Erbyn Menywod

2009-2010

CANGEN GWYBODAETH REOLI

# Mynegai


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cyfarwyddwr | 2 |
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Trais Domestig | 20 |
| Prif Ganfyddiadau Trais Domestig | 22 |
| Treisio | 32 |
| Prif Ganfyddiadau Treisio | 34 |
| Troseddau Rhywiol | 44 |
| Prif Ganfyddiadau Troseddau Rhywiol | 45 |
| Priodas dan Orfod, Llurgunio Organau Rhywiol Menywod a Trais yn Seiliedig ar Anrhydedd | 51 |
| Plant a Cham-drin Plant | 53 |
| Prif Ganfyddiadau Plant Cam-drin Plant | 55 |
| Masnachu mewn Pobl | 57 |
| Prif Ganfyddiadau Masnachu mewn Pobl | 60 |
| Puteindra | 66 |
| Prif Ganfyddiadau Puteindra | 67 |
| Pornograffi | 69 |
| Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal | 73 |
| Geirfa | 77 |

# Rhagair Gan Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Rwyf yn croesawu trydydd adroddiad trosedd Trais yn erbyn Menywod (TEM), sy'n amlinellu'r erlyniadau o droseddau ar draws rhychwant o droseddau TEM yn 2009- 10. Mae'r Twrnai Cyffredinol, Y Cyfreithiwr Cyffredinol a minnau i gyd yn ymrwymedig i yrru'r agenda hon ymlaen, fel prif flaenoriaeth gyfredol i'r Gwasanaeth.

Gan gychwyn yn gynnar yn 2010, mae fy ymweliadau ag Ardaloedd CPS wedi ymdrin â TEM, gyda ffocws ar wella erlyniadau, a chefnogi dioddefwyr drwy'r system cyfiawnder troseddol. Rydym yn cydnabod effeithiau TEM, nid yn unig ar ddioddefwyr y troseddau trawmatig hyn ond hefyd llawer sy'n byw mewn ofn y fath drais a'i effaith ar blant. Mae rhai o'r achosion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn dangos ehangder, a chydberthynas, y ffurf hon o gamdriniaeth – achosion o drais domestig, masnachu mewn pobl, puteindra, trais seiliedig ar anrhydedd, treisio a phornograffi – llawer ohonynt yn cynnwys plant.

Rwyf yn falch o weld ein bod wedi parhau i weld cynnydd gwirioneddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan adeiladu ar welliannau mewn erlyniadau TEM ers 2006-07. Mae ein rhaglen TEM yn rhan o'n gweithrediad o'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhyw o dan ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Fel awdurdod cyhoeddus, rydym yn ymrwymedig i sicrhau tryloywder yn ein cyflenwad gwasanaethau drwy gyhoeddi'r data hwn yn flynyddol.

Yn 2010-11 rydym yn symud i drydedd blwyddyn ein strategaeth ac rydym yn symud i ffwrdd oddi wrth ddull canoledig i ddull mwy lleol. Rydym yn awr yn adeiladu galluogrwydd yn y Grwpiau CPS i sicrhau gwell gweithredu lleol a sicrhau fod y gwelliannau mewn effeithlonrwydd ac ansawdd yn parhau ac wedi eu plannu mewn systemau lleol.

Yn Ebrill 2010, lansiais gyflwyniad Safonau Ansawdd Craidd yn y gwasanaeth. Bydd monitro TEM yn parhau oddi mewn i fframwaith Monitro Safonau Ansawdd Craidd newydd. Bydd mesurau dilysu ochr yn ochr ag asesiad o 12 Safon Ansawdd Craidd (CQSM). Bydd achosion treisio'n benodol yn cael eu samplo fel rhan o CQSM er mwyn asesu ansawdd erlyniadau. O Ionawr 2011, rydym yn sefydlu system Sicrwydd TEM i Grwpiau i sicrhau ein Prif Swyddog Gweithredol o berfformiad ar draws erlyniadau trais domestig, treisio a throseddau rhywiol.

Yr adroddiad hwn yw'r Adroddiad Trosedd TEM olaf sydd wedi ei seilio ar y system flaenorol o reoli perfformiad a bydd adroddiadau data o 2010-11 yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r system CQSM. Er mwyn cydnabod y symudiad hwn o gyflenwad Ardaloedd i Gr p rydym wedi cynnwys data yn yr adroddiad hwn ar lefel Gr p yn ogystal ag Ardal.

Rydym yn gweithio fel rhan o ymateb traws-lywodraeth i drais yn erbyn menywod a genethod (TEMG), fel yr amlinellir yn y naratif TEMG a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2010.

Rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith eto i'w wneud, ond rydym yn ymrwymedig i wella erlyniadau teg a chyfiawn yn yr holl achosion TEM, gan roi sylw i ddiogelwch a chymorth i ddioddefwyr. Rydym yn ddiolchgar i'r holl erlynyddion ac adfocadau Ardal sy'n delio â'r achosion hyn a'r asiantaethau cymorth sy'n gweithio gyda ni i ddarparu cymorth i ddioddefwyr.

**Keir Starmer QC**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**

# Crynodeb Gweithredol

Dyma drydydd adroddiad perfformiad blynyddol Trais yn erbyn Menywod (TEM) Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), ac mae'n trafod y meysydd canlynol o Drais yn erbyn Menywod ar gyfer 2009 - 10: trais domestig; treisio a throseddau rhywiol; priodas dan orfod; trais yn seiliedig ar anrhydedd; llurgunio organau rhywiol menywod; cam-drin plant; masnachu mewn pobl; puteindra; a phornograffi.

Mae'r troseddau hyn wedi'u grwpio o dan ymbarél 'Trais yn Erbyn Menywod' oherwydd eu proffil – achosion sydd wedi'u cyflawni'n bennaf, er nad bob amser, gan ddynion yn erbyn menywod, o fewn cyd-destun p er a rheolaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi data cyfun ar drais domestig, treisio a throseddau rhywiol, gydag adrannau ar wahân ar bob un o'r tri maes yn dilyn.

Yn ychwanegol, rhoddir data pellach ar gam-drin plant, puteindra, masnachu mewn pobl a phornograffi. Mae Canolfan Masnachu Mewn Pobl y DU wedi darparu data ar achosion erlyniadau masnachu mewn pobl. Yn achos yr holl feysydd TEM, ceir gwybodaeth fanwl ar waith presennol a gwaith sydd wedi'i gynllunio, a chyflwynir nifer o astudiaethau achos fel enghreifftiau.

Daw data'r CPS o system weinyddol TG y CPS, ac maent yn cael eu defnyddio i reoli perfformiad mewnol. Fel y cyfryw, ni ddylid cyfri'r rhain fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth. Fel gydag unrhyw system gofnodi graddfa fawr, mae'r data'n destun i wallau posib gyda mewnbynnu a phrosesu data. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro ac yn destun i newid fel bo rhagor o wybodaeth yn cael ei chofnodi gan y CPS.

Mae'r CPS wedi symud oddi ffwrdd o gyfundrefn o dargedau cenedlaethol tuag at set o fesurau sy'n cefnogi gwelliannau ar lefel ranbarthol, ac i lawr i lefel leol.

## TEM - prif ganfyddiadau cyffredinol

Mae adran TEM yr adroddiad yn cyflwyno data a goladwyd ar drais domestig, treisio a throseddau rhywiol. Mae'r ffigyrau pennawd yn dangos:

- Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2010, erlynwyd dros 308,800 o ddiffynyddion am droseddau trais yn erbyn menywod
- Cynyddodd nifer yr achosion TEM a erlynwyd o 25% o 68,930 yn 2006-07 i 85,904 yn 2009-10
- Roedd 94% o ddiffynyddion yn ddynion yn 2009-10 (yn gyson ar 94-95% dros y cyfnod pedair blynedd)
- Roedd 85% o ddioddefwyr yn fenywod yn 2009-10[1] (yn gyson ar 85-86% dros y cyfnod pedair blynedd)
- roedd 86% o droseddau TEM yn drais domestig (cynyddu o 83% yn 2006-07); 5% yn dreisio a 9% yn droseddau rhywiol
- cynyddodd nifer yr achosion TEM a gyhuddwyd o 53% yn 2006-07 i 61% yn 2009-10
- gostyngodd yr erlyniadau aflwyddiannus o 35% yn 2006-07 i 28% yn 2009-10
- Cynyddodd yr erlyniadau llwyddiannus o 65% yn 2006-07 i 72% yn 2009-10
- cynyddodd pledio'n euog o 56% yn 2006-07 i 63% yn 2009-10
- roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr yn cyfrif am 15% o'r holl ganlyniadau TEM yn 2006-07, gan ostwng i 13% yn 2009-10.

[1] Nodwch na chofnodwyd rhywedd y dioddefwr mewn 19 % o achosion TEM..

## Trais domestig - prif ganfyddiadau

- Yn y pum mlynedd[2] yn diweddu Mawrth 2010, erlynwyd dros 312,100 o ddiffynyddion am drais domestig
- Cynyddodd nifer yr achosion TD a erlynwyd o 29% o 57,361 yn 2006-07 i 74,113 yn 2009-10
- Roedd 93% o ddiffynyddion yn ddynion yn 2009-10 (yn gyson ar 93-94% dros y pedair blynedd diwethaf)
- Roedd 85% o ddioddefwyr yn fenywod yn 2009-10[3] (yn gyson ar 85%-86% dros y pedair blynedd diwethaf)
- cynyddodd nifer yr achosion TD a gyhuddwyd o 56% yn 2006-07 i 63% yn 2009-10
- gostyngodd yr erlyniadau aflwyddiannus o 35% yn 2006-07 i 28% yn 2009-10
- cynyddodd yr erlyniadau llwyddiannus o 65% yn 2006-07 i 72% yn 2009-10
- gwelwyd pledio'n euog yn cynyddu o 58% yn 2006-07 i 65% yn 2009-10
- roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr yn cyfrif am 17% o'r holl ganlyniadau trais domestig yn 2006-07, gan ostwng i 14% yn 2009-10.

## Treisio - prif ganfyddiadau

- Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2010, erlynwyd dros 14,000 o ddiffynyddion am dreisio
- Cynyddodd nifer y troseddau treisio a erlynwyd o 17% o 3,264 yn 2006-07 i 3,819 yn 2009-210
- Yn y pedair blynedd diwethaf, roedd 99% o ddiffynyddion yn ddynion
- Roedd 89% o ddioddefwyr yn fenywod yn 2009-10[4], 2% yn fwy nag yn 2006-07
- cynyddodd y gyfran o achosion treisio y penderfynodd y CPS eu cyhuddo o 30% yn 2006-07 i 36% yn 2009-10
- gostyngodd yr erlyniadau aflwyddiannus o 46% yn 2006-07 i 41% yn 2009-10
- cynyddodd yr erlyniadau llwyddiannus o 54% yn 2006-07 i 59% yn 2009-10
- cynyddodd pledio'n euog o 33% yn 2006-07 i 37% yn 2009-10.

## Troseddau rhywiol - prif ganfyddiadau[5]

- Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2010, erlynwyd dros 32,300 o ddiffynyddion am droseddau rhywiol (heblaw am dreisio)
- Mae'r nifer o droseddau rhywiol a erlynwyd wedi gostwng o 4% o 8,305 yn 2006-07 i 7,972 yn 2009-10
- Roedd 96% o ddiffynyddion yn ddynion yn 2009-10 (heb newid llawer o'i gymharu â'r tair blynedd flaenorol)
- gostyngodd yr erlyniadau aflwyddiannus o 32% yn 2006-07 i 24% yn 2009-10
- cynyddodd yr erlyniadau llwyddiannus o 68% yn 2006-07 i 76% yn 2009-10
- cynyddodd pledio'n euog o 53% yn 2006 - 07 i 63% yn 2009-10.

---

[2] Mae'r rhan fwyaf o ddata trais domestig yn cael ei ddal o 2005-06, ond bydd data 2006-07 yn cael ei ddefnyddio yn y crynodeb gweithredol yn bennaf i ganiatáu cymhariaeth.

[3] Nodwch na chofnodwyd rhyw'r dioddefwr mewn 18% o achosion trais domestig.

[4] Nodwch na chofnodwyd rhywedd y dioddefwr mewn 36% o achosion trais rhywiol.

[5] Mae data CPS ar droseddau rhywiol yn fwy cyfyngedig nag yw am drais domestig a thrais rywiol. Dim ond ar ddiwedd erlyniad y dynodir troseddau rhywiol tra bod data ar drais domestig neu dreisio'n cael ei ddal am achosion cyn-cyhuddo

## Cam-drin plant

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu data ar erlyniad lladdiad plant; troseddau corfforol a throseddau rhywiol.

- Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2010, erlynwyd 143 o ddiffynyddion am laddiad[6]; 9,348 o ddiffynyddion am droseddau corfforol ac 15,947 o ddiffynyddion am droseddau rhywiol yn erbyn plant;
- Mae'r nifer o droseddau cam-drin plant a erlynwyd wedi cynyddu 33% ar gyfer diffynyddion mewn achosion lladdiad, 13% ar gyfer diffynyddion mewn achosion o droseddau corfforol ac 8% ar gyfer diffynyddion mewn achosion troseddau rhywiol, yn cynnwys treisio;
- Yn 2009-10, roedd 70% o ddiffynyddion mewn achosion lladdiad, 73% o ddiffynyddion troseddau corfforol, a 98% o ddiffynyddion troseddau rhywiol yn ddynion (gostyngiad yng nghyfran y dynion a erlynwyd ar laddiad a throseddau corfforol);
- Yn 2009-10 roedd cyfraddau euogfarn o 83% am laddiad[7]; 72% am droseddau yn erbyn yr unigolion(y ddau'n debyg i 2006-07), a 76% am droseddau rhywiol (cynnydd o 69% yn 2006-07).

## Masnachu mewn pobl

Mae data ar erlyniad troseddau masnachu mewn pobl ar gyfer 2009-10, ar gael mewn pennod ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, wedi'i ddarparu gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU. Yn 2009-10, erlynwyd 65 o ddiffynyddion am fasnachu mewn pobl i ddiben ecsbloetiaeth rywiol o dan Adrannau 57, 58 a 59 y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Roedd 706 o atgyfeiriadau o ddioddefwyr potensial a thybiedig, ac roedd 520 ohonynt yn fenywod a 186 yn ddynion, yn yr holl droseddau masnachu mewn pobl. Roedd y mwyafrif o ddioddefwyr rhwng 26 a 30 oed.

## Puteindra

Mae peth data yn cael ei ddarparu ar y nifer o droseddau a erlynir mewn perthynas â rheoli puteindra, rheoli puteindy, plagio pen stryd neu hysbysebu puteindra drwy roi hysbysebion mewn blychau ffôn. Yn 2009 - 10, erlynwyd 121 o droseddau rheoli puteindra, 44 o reoli puteindy, 396 o droseddau plagio pen stryd a 457 o droseddau hysbysebu puteindra.

## Pornograffi

Mae peth data hefyd yn cael ei ddarparu ar y nifer o droseddau a erlynir mewn perthynas â deunyddiau anweddus neu dramgwyddus iawn, cyhoeddiadau anllad ac ecsbloetiaeth rywiol o blant drwy wneud, dosbarthu, dangos a hysbysebu lluniau anweddus. Yn 2009-10, erlynwyd 4,117 o droseddau o feddiant o lun anweddus o blentyn, ac 14,595 o ecsbloetiaeth rywiol o blant drwy luniau

[6] Mae lladdiad, o fewn System Rheoli Achosion y CPS, yn cynnwys troseddau o lofruddiaeth neu ddynladdiad, cynllwynio neu geisio lladd a bygythiadau i ladd.
[7] Nodwch, os gwelwch yn dda, y nifer fechan o achosion.

# Cyflwyniad

Dyma drydydd adroddiad perfformiad blynyddol Trais yn erbyn Menywod Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae'r adroddiad yn trafod rhychwant o feysydd Trais yn erbyn Menywod (TEM) yn ystod 2009-10:

- trais domestig
- treisio a throseddau rhywiol
- masnachu mewn pobl, gyda ffocws ar fasnachu mewn pobl i ddiben ecsbloetiaeth rywiol
- puteindra, gan gynnwys puteindra plant
- priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd; a llurgunio organau rhywiol menywod
- cam-drin plant
- pornograffi.

Mae'r troseddau hyn wedi'u grwpio o dan ymbarél 'Trais yn Erbyn Menywod' oherwydd eu proffil – achosion sydd wedi'u cyflawni'n bennaf, er nad bob amser, gan ddynion yn erbyn menywod, o fewn cyd-destun pŵer a rheolaeth. Ar gyfer trais domestig, treisio, troseddau rhywiol, a ble fo'n bosib ar gyfer cam-drin plant, mae perfformiad erlyniad yn 2009-10 yn cael ei gymharu â data o flynyddoedd blaenorol. Mae Canolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig wedi darparu data ar erlyniad achos ar fasnachu mewn pobl. Darparwyd peth data hefyd ar y nifer o droseddau a erlynwyd yn achos troseddau puteindra a phornograffi.

Mae'r adroddiad yn darparu data mewn adrannau ar wahân i bob un o feysydd TEM, gan gynnwys gwaith presennol a gwaith sydd wedi'i gynllunio o dan bob testun a nifer o astudiaethau achos. Mae'r data gorau sydd ar gael yn cael eu hadrodd, tra'n cydnabod bod rhai diffygion yn yr hyn sydd ar gael. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau gwelliant parhaus yn ansawdd y data.

## Strategaeth a chynlluniau gweithredu Trais yn erbyn Menywod y CPS

Yn 2009-10 gweithredodd y CPS weithrediadau allweddol a oedd ar y pryd yn gysylltiedig â Dangosyddion Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSAs) y CPS o:

- wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Droseddol (CJS) drwy ddod â mwy o droseddwyr troseddau TEM gerbron llys
- gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid TEM yn y CPS
- gwella cymorth, diogelwch a bodlonrwydd tystion a dioddefwyr TEM
- rhoi sylw i unrhyw ddiffyg cymesuredd ar draws yr holl feysydd cydraddoldeb o fewn TEM.

Er bod y PSAs hyn wedi dod i ben yn 2010, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithrediadau yn 2009-10 yn ystod cyfnod o waith a oedd yn gysylltiedig â'r PSAs. Yn ystod 2009 - 10 parhaodd strategaeth TEM i gael ei dynodi fel un o naw phrosiect 'cenhadaeth hanfodol' o fewn y CPS, yn dangos y pwysigrwydd a roddir ar y gwaith hwn. Yn Ionawr 2010, cychwynnodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar gyfres o ymweliadau ar draws yr holl Ardaloedd CPS ac yn ystod y rhain mae ffocws ar eu gwaith a pherfformiad TEM.

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar asesiad meintiol o'r erlyniadau ar draws TEM, mae'r gwaith yn ei gyfanrwydd yn cydnabod nad yw 'llwyddiant' mewn achosion TEM yn cael ei fesur yn unig drwy welliannau mewn erlyniadau. Mae'r gwasanaeth wedi asesu'r materion hyn trwy gynnal arolwg bodlonrwydd rhanddeiliaid TEM ac mae'n datblygu cynlluniau ar draws y system cyfiawnder

troseddol i sefydlu systemau i fesur cymorth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr TEM. Mae ymchwil hefyd yn edrych ar unrhyw ddiffyg cymesuredd posib mewn perthynas ag erlyniad achosion TEM yn ôl ethnigrwydd, drwy brosiect ymchwil sydd i'w gwblhau yn hwyr yn 2010.

2009-10 oedd yr ail flwyddyn o fonitro Dangosydd TEM trwy Adolygiadau Perfformiad Ardal er mwyn monitro perfformiad wrth ddod â mwy o droseddwyr TEM gerbron llys. Roedd pob Ardal yn cael ei hasesu bob chwe mis, gydag adroddiadau'n mynd i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Prif Weithredwr, naill ai drwy adroddiad ysgrifenedig neu gyfarfod. Mae'r holl Ardaloedd wedi cael o leiaf un cyfarfod y flwyddyn.

Yn 2009-10 parhaodd y CPS i roi sylw i berfformiad drwy'r Dangosydd TEM mewn perthynas â thrais domestig, treisio a throseddau rhywiol.

## Gweithredu cynlluniau gweithredu TEM 2009-10:

**Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y CJS drwy ddod â mwy o droseddwyr troseddau TEM gerbron llys:**

- *Lleihau canlyniadau erlyniad aflwyddiannus:*
  Arhosodd y gyfran o ganlyniadau TEM aflwyddiannus yn gyson yn 2009 - 10 ar 28% yn erbyn y nifer o achosion a gyhuddwyd. Cynyddodd y nifer o 78,523 yn 2008-09 i 85,904 yn 2009 - 10 cynnydd o dros 9%. O 2006-07 i 2009 - 10, roedd cynnydd o 25% yn y nifer o achosion TEM a erlynwyd.

  Roedd y cynnydd mwyaf mewn nifer ar gyfer trais domestig – 10.5% yn y flwyddyn ddiwethaf a 29% ers 2006-07. Arhosodd canlyniadau aflwyddiannus hefyd yn gyson ar 28% yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Cynyddodd nifer achosion treisio o dipyn dros 9% o'r flwyddyn flaenorol, gyda gostyngiad mewn canlyniadau aflwyddiannus o 42% yn 2008-09 i 41% yn 2009 - 10. Troseddau rhywiol oedd â'r cynnydd lleiaf mewn nifer o achosion a gyhuddwyd (0.5% y llynedd) ond roedd y gyfran isaf o ganlyniadau aflwyddiannus ar 24% yn 2009 - 10.

  Mae paneli craffu ardaloedd wedi cynnwys arbenigwyr cymunedol lleol i gynghori ar welliannau mewn erlyniadau TEM – mae 26 o baneli Ardal yn cynnwys trais domestig, 6 o baneli'n cynnwys yr holl ffrydiau TEM a 4 panel yn cynnwys treisio.

  Mae'r adroddiad hwn yn darparu data manwl pellach oddi mewn i bob adran. Yn gyffredinol, cynyddodd erlyniad mewn mwy o achosion o drais domestig ond nid yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd ac arhosodd yn gyson ar gyfer canlyniadau euogfarn yn pledio'n euog, terfynu achos, achosion ble na chynigwyd unrhyw dystiolaeth, canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr a rhyddfarn. Mae'r 141 o Lysoedd Trais Domestig Arbenigol yn anelu at ddarparu cymorth o'r fath, a sicrhau gwell canlyniadau erlyniad. Mae'r 26 Panel Craffu Trais Domestig Ardal wedi helpu dynodi materion ar gyfer gwella.

  Mae erlyniadau treisio wedi gwella'n gyffredinol. Mae'r nifer, ond nid y gyfran, o achosion a gyhuddwyd wedi cynyddu yn 2009 – 10 o'i gymharu â 2008-09. Yn erbyn cynnydd yn nifer y achosion a erlynwyd roedd gostyngiad yn y canlyniadau aflwyddiannus, gostyngiad o 3% mewn achosion a derfynwyd, a llai o ganlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr. Cynyddodd pledio'n euog o ychydig dan 2%. Fodd bynnag cynyddodd rhyddfarnau rheithgor o bron i 2%, gan gyfrif am bron i un o bob pump o achosion yr erlyniad. Dengys hyn yr angen parhaus am fwy o waith rhyngasiantaethol gyda phartneriaid i ymdrin ag ymwybyddiaeth gyhoeddus a her i'r mythau a stereoteipiau oddi mewn a thu allan i'r cyfiawnder troseddol system.

  Mae'r canlyniadau ar gyfer erlyniadau troseddau rhywiol wedi gwella, gyda chynnydd bach yn y nifer o achosion o 2008-09 i 2009 - 10, gostyngiad bach yn y gyfran o ganlyniadau aflwyddiannus, yn

cynnwys y rheiny ar gyfer materion dioddefwyr. Hefyd gostyngodd yr achosion a derfynwyd rhyw ychydig, a bu cynnydd mewn pledio'n euog (63%). Fel mewn achosion o dreisio bu cynnydd bychan mewn rhyddfarnau rheithgor.

Datblygwyd gwaith yn ystod 2009-10 i fonitro canlyniadau cam-drin plant, masnachu mewn pobl, priodas dan orfod, a thrais yn seiliedig ar anrhydedd, gyda fflagio ffurfiol o achosion i'w monitro ar draws y Gwasanaeth gan ddechrau yn Ebrill 2010. Hefyd mae troseddau puteindra a phornograffi yn parhau i gael eu monitro'n flynyddol.

- *Datblygu Canllawiau TEM ar gyfer erlynyddion:*
  Rhoddwyd Canllawiau TEM i'r holl erlynyddion ym Mehefin 2009, yn disgrifio natur rywiaethol y troseddau hyn, gan ddarparu gwybodaeth ar batrymau cyffredin a phrif ofynion erlyn troseddau TEM. Roedd yn cynghori ar ffyrdd o wella erlyniad yr achosion hyn a diogelwch y dioddefwyr. Hefyd cynhwyswyd manylion sefydliadau cymorth TEM.

  Lansiwyd Cyd Ganllaw Treisio ACPO/CPS ym Mehefin 2009 gyda chwe gweithdy rhanbarthol. Ymwelwyd â phob Ardal gan dîm ar y cyd rhwng ACPO/CPS yn ystod 2009-10 i gefnogi Ardaloedd i wella erlyniadau treisio.

- *Cydlynu a rhesymoli cydlynwyr TEM:*
  Cynhaliwyd seminar i'r holl gydlynwyr TEM yn Ebrill 2009. Detholwyd arbenigwyr yn 2009-10 i erlyn priodas dan orfod a thrais seiliedig ar anrhydedd. Hefyd mae erlynyddion treisio arbenigol ac erlynyddion dynodedig mewn Llysoedd TD Arbenigol yn parhau.

- *Hyfforddiant TEM*
  Mae gwaith yn cael ei gynnal i ddatblygu astudiaethau achos TEM ar gyfer eu defnyddio ar draws rhychwant o raglenni hyfforddiant o fewn y CPS. Mae hyfforddiant i staff newydd ar erlyn trosedd trais domestig yn parhau. Cafodd hyfforddiant ar erlyn troseddau sy'n ymwneud â phornograffi plant yn ogystal â masnachu mewn pobl hefyd ei gynnal yn Hydref 2009. Cynhaliwyd rhaglen hyfforddiant newydd ar gyfer erlynyddion arbenigol dethol ar briodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd yn gynnar yn 2010.

  Mynychodd holl Brif Erlynyddion y Goron raglen hyfforddiant treisio yn gynnar yn 2010. Bydd yr holl erlynyddion treisio arbenigol wedi eu hyfforddi erbyn 2011.

## Gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y CPS

- *Cynnwys rhanddeiliaid cymunedol yn lleol a chenedlaethol:*
  Sefydlwyd grŵp ymgynghori allanol yn cynnwys prif randdeiliaid TEM cenedlaethol i gynghori'r CPS ar faterion TEM yn 2007-08 ac mae wedi bod ar waith ers tair blynedd erbyn hyn.

  Yn lleol mae Ardaloedd yn cynnwys eu rhanddeiliaid cymunedol ac mae nifer o Ardaloedd gyda phaneli craffu TEM penodol[8] i graffu ar achosion lleol a thynnu allan y pwyntiau dysgu. Bydd unrhyw estyniad i'r paneli'n cael ei ystyried yn 2010-11 mewn adolygiad o'r holl banelu craffu/cymunedol..

  Adolygwyd ymgysylltiad cymunedol Ardal yn 2009-10, yn cynnwys asesiad byr o waith TEM.

- *Datblygu system i fesur bodlonrwydd rhanddeiliaid:*
  Cynhaliwyd arolwg o foddhad rhanddeiliaid TEM trwy holiaduron a grwpiau ffocws yn 2009-10. Rhoddodd yr arolwg wybodaeth yngl n â ffyrdd i wella ymgysylltiad cymunedol TEM, cefnogaeth i ddioddefwyr a gweithredu polisïau TEM yn effeithiol. Bydd unrhyw ystyriaeth o asesiad boddhad rhanddeiliaid i'r dyfodol yn rhan o graffu/ adolygiad panel cymunedol yn 2010-11.

---

8 26 O baneli trais domestig Ardal; chwe phanel TEM a phedwar panel treisio

## Gwella cymorth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr:

- *Gweithio gyda'r Uned Cyflenwi Gofal Dioddefwyr & Thystion (V&WCDU) i ystyried systemau cymorth i ddioddefwyr TEM:*
  Rhoddodd y V&WCDU wybodaeth ynglŷn â rhai gwasanaethau cefnogol arbenigol allweddol TEM i'r holl Unedau Gofal Tystion ac maent yn cynnal archwiliad TEM yn ystod haf 2010.

- *Cymorth ar gyfer dioddefwyr TEM:*
  Erbyn Ebrill 2010, roedd 141 o Lysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVCs), gyda chymorth i ddioddefwyr drwy Gynghorwyr Annibynnol ar DD (IDVAs). Rhoddwyd hyfforddiant a chefnogaeth i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol wrth i lywodraethu SDVC a rheoli perfformiad gael ei ddatganoli iddynt yn 2009 - 10.

- *Polisïau gweithwyr TEM:*
  Estynnwyd y polisi gweithwyr trais domestig i ymdrin ag anghenion unrhyw staff CPS sy'n wynebu ffurfiau eraill o TEM ym Mawrth 2010.

- *Datblygu system i fesur cymorth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr:*
  Gweithiodd y CPS gyda'r Swyddfa Gartref i ddatblygu rhagor o gwestiynau dioddefwyr TEM yn yr adolygiad o Arolwg Trosedd Prydain.

  Ystyriodd gwaith gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder estyniad posib i'r Arolwg Gwerthuso Tystion a Dioddefwyr (WAVES) i ddioddefwyr trais domestig ac/neu drais rhywiol. Mae adolygiad yn mynd yn ei flaen yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar yr holl arolygon yn 2010.

  Comisiynodd y CPS adroddiad gan Gomisiwn Cenedlaethol Menywod ar farn dioddefwyr TEM am eu cefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd o fewn y cyfiawnder troseddol system.

## Ymdrin ag unrhyw ddiffyg cymesuredd ar draws yr holl feysydd cydraddoldeb:

- *Dadansoddi proffiliau cydraddoldeb diffynyddion a dioddefwyr TEM:*
  Mae proffiliau cydraddoldeb ddiffynyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn derbyn sylw ac adroddir yn ôl arnynt yn yr adroddiad hwn. Mae data ar ddioddefwyr yn dal i gael ei ddatblygu ymhellach. Rhoddwyd canllawiau ar fonitro proffiliau cydraddoldeb ac amrywiaeth diffynyddion, dioddefwyr a thystion i Ardaloedd ym Mawrth 2010.

- *Asesiad o erlyniadau yn ôl ethnigrwydd:*
  Yn dilyn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth TEM, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i asesu erlyniadau yn ôl ethnigrwydd y diffynnydd, ac ymdrin ag unrhyw ddiffyg cymesuredd. Bydd yr ymchwil yn adrodd yn hwyrach yn 2010.

- *Sicrhau bod gan Unedau Gofal Tystion systemau cymorth a gwybodaeth yngl n â chymorth i ddioddefwyr a thystion yn yr holl gymunedau:*
  Yng ngwaith yr Unedau Gofal Tystion, mae systemau cymorth ar gyfer rhychwant o gymunedau'n cael sylw.

## Gwaith traws-lywodraeth ar Drais yn erbyn Menywod

Roedd rhaglen TEM y CPS yn rhan o strategaeth traws-lywodraeth ar Drais yn erbyn Menywod a Genethod a lansiwyd yn Nhachwedd 2009. Mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu yn 2010-11, gyda chyhoeddi naratif strategol yn Nhachwedd 2010. Mae'r CPS hefyd yn rhan o nifer o grwpiau traws-lywodraeth sy'n gweithio ar y gwahanol feysydd TEM, yr adroddir yn ôl arnynt yn yr adroddiad hwn.

# Prif Ganfyddiadau Trosedd Trais yn Erbyn Menywod

Ers Ebrill 2008, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ar erlyn troseddau trais yn erbyn menywod (TEM) fel rhan o'r broses adolygu perfformiad, gan fesur canlyniadau'n erbyn dangosydd perfformiad sydd yn amcanu at ostwng canlyniadau aflwyddiannus. Mae'r troseddau TEM a gynhwysir yn y dangosydd hwn yn 2009-10 yn cynnwys trais domestig, treisio, a throseddau rhywiol eraill heblaw am dreisio. Cyn Ebrill 2008, roedd trais domestig yn cael ei gofnodi a'i adrodd fel trosedd casineb.

Mae data ar droseddau TEM yn cael eu cofnodi o fewn y System Rheoli Achosion Compass (CMS), ac yn cael eu tynnu o'r System Rheoli Gwybodaeth Compass (MIS) gysylltiedig. Daw data'r CPS o system weinyddol TG y CPS, ac maent yn cael eu defnyddio ar gyfer rheoli perfformiad mewnol. O'r herwydd ni ddylid ystyried y rhain fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth. Fel gydag unrhyw system gofnodi fawr, mae'r data hwn yn destun i gamgymeriadau posib gyda mewnbynnu a phrosesu data. Mae'r ffigyrau yn rhai dros dro ac yn destun i newid fel bo rhagor o wybodaeth yn cael ei chofnodi gan y CPS.

Mae gwahaniaethau trefniadol bychain yn y ffyrdd y mae data'n cael ei ddal. Dynodir achosion o drais domestig a threisio trwy gysylltu baneri monitro achos a osodir gan y defnyddiwr CPS ar gam cyn-cyhuddo. I'r gwrthwyneb, mae troseddau rhywiol yn cael eu dynodi gan ddefnyddwyr CMS ar ddiwedd achosion. Felly, tra'i bod yn bosib dynodi penderfyniadau cyn-cyhuddo gydag achosion o drais domestig a threisio, nid oes unrhyw gofnod cyfatebol o benderfyniadau cyn-cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol; dim ond cofnod o ganlyniadau terfynol yr achosion.


Mae erlyniadau a gwblhawyd yn dod i mewn i ddau gategori: euogfarnau, yn cynnwys pledio'n euog, euogfarnau yn dilyn treial, ac achosion a gafodd eu profi yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sef yr holl ganlyniadau eraill yn cynnwys terfynu achos, cwblhau'r gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial, a gwrthod achosion am nad oes achos i'w ateb, rhyddfarnau gan y barnwr a rhyddfarnau rheithgor.

## Cyhuddo

Yn Ebrill 2006, cyflwynwyd y broses o gyhuddo statudol o ddiffynyddion gan y CPS yn llawn. Ers 2006, cododd y nifer a atgyfeiriwyd i'r CPS o dros 25,600 neu 35% (o 73,229 yn 2006-07 i 98,867 yn 2009-10) Nid yw'r ffigyrau cyhuddo'n cynnwys troseddau rhywiol heblaw am dreisio, gan y dynodir y troseddau hyn yn unig pan fydd diffynnydd yn cael ei gyhuddo'n ffurfiol.

Cynyddodd y gyfran o achosion a gyhuddwyd o 53% o achosion TEM a gyfeiriwyd at y CPS yn 2006-07 i 61% yn 2009-10. Mae'r gyfran o achosion a gyhuddwyd o fewn pob math o drosedd yn cael eu hadrodd yn rhan berthnasol yr adroddiad hwn. Roedd cyfraddau cyhuddo'n amrywio ar draws y meysydd. Yn 2009-10, cyhuddwyd 63% o achosion o drais domestig, yn adlewyrchu'r gwaith hanesyddol a wnaethpwyd i wella erlyniadau trais domestig. Yn ystod yr un cyfnod cymerwyd penderfyniad i gyhuddo mewn 36% o'r troseddau treisio a gyflwynwyd i'r CPS am benderfyniad cyn-cyhuddo. Gall hyn fod yn arwydd o'r anawsterau sy'n rhan o erlyn treisio, yn enwedig pan fydd anghydfod ynghylch p'un a wnaeth y ddioddefwraig gydsynio.

**Tabl 1 – Penderfyniadau Cyhuddo ***





| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 38,920 | 53.1% | 49,335 | 61.8% | 54,983 | 63.2% | 60,054 | 60.7% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 897 | 1.2% | 565 | 0.7% | 510 | 0.6% | 596 | 0.6% |
| Dim erlyniad | 21,699 | 29.6% | 23,113 | 29.0% | 23,977 | 27.6% | 28,460 | 28.8% |
| Pob penderfyniad arall | 11,713 | 16.0% | 6,774 | 8.5% | 7,550 | 8.7% | 9,757 | 9.9% |
| **Cyfanswm** | **73,229** | | **79,787** | | **87,020** | | **98,867** | |

Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006
** Dangosir y penderfyniadau cyn-cyhuddo yn gynwysedig o achosion ble na ddaliwyd yn llawn ddeilliant y penderfyniad yng nghofnodion y CPS. Mae'r ffigyrau presennol felly'n wahanol i'r rheiny yn adroddiad 2007-08*

## Euogfarnau:

Mae'r tabl a siart 2 isod yn rhoi dadansoddiad o erlyniadau dros y cyfnod pedair blynedd, yn dangos bod euogfarnau wedi codi o 65% yn 2006-07 i 72% yn 2009-10. Yn ystod y cyfnod pedair blynedd mae'r niferoedd a erlynwyd gan y CPS wedi codi o 16,900, neu 25%, o 68,930 yn 2006-07 i 85,904 yn 2009-10.

**Tabl 2 – Erlyniadau a Gyflawnwyd yn ôl Canlyniad**



| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 44,836 | 65.0% | 51,974 | 68.9% | 56,438 | 71.9% | 61,677 | 71.8% |
| Aflwyddiannus | 24,094 | 35.0% | 23,478 | 31.1% | 22,085 | 28.1% | 24,227 | 28.2% |
| **Cyfanswm** | **68,930** | | **75,452** | | **78,523** | | **85,904** | |

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn ar gyfer TEM yn 2009 - 10. Gweler cymariaethau o ganlyniadau yn 2009 - 10 a blynyddoedd cynharach yn y penodau sy'n ymdrin â thrais domestig, treisio a throseddau rhywiol sy'n dilyn. Yn ystod y cyfnod pedair blynedd yn terfynu Mawrth 2010, cynyddodd pledio'n euog o 56% i 63%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarn o 72% yn gyffredinol yn 2009 - 10. Gostyngodd erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion a'r rheiny ble nad oedd unrhyw dystiolaeth yn cael ei chynnig, o 26% i lai na 21%.


### Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn


| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *17,735* | *20.6%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *9,642* | *11.2%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 3,067 | 3.6% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 227 | 0.3% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 2,058 | 2.4% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 1,140 | 1.3% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **24,227** | **28.2%** |
| Ple euog | 54,484 | 63.4% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 7,069 | 8.2% |
| Profwyd yn absenoldeb | 124 | 0.1% |
| **Euogfarnau** | **61,677** | **71.8%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **85,904** | |

## Erlyniad yn ôl math o drosedd TEM

Mae'r tabl a siartiau isod (4) yn dangos erlyniadau yn ôl math o drosedd TEM ar gyfer 2006 - 07 i 2009 - 10. Trais domestig oedd y gyfran fwyaf o'r cyfanswm drwy'r cyfnod pedair blynedd, o 83% yn 2006-07 i 86% yn 2009 - 10. Mae'r nifer o achosion o dreisio a erlynwyd wedi cynyddu dros y cyfnod amser hwn, ond yn gyfrannol mae'n is ar draws bob trosedd TEM.

**Tabl 4 – Erlyniadau wedi'u Cwblhau yn ôl Math o Drosedd TEM**




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Trais Domestig | 57,361 | 83.2% | 63,819 | 84.6% | 67,094 | 85.4% | 74,113 | 86.3% |
| Trosedd rywiol ac eithrio treisio | 8,305 | 12.0% | 8,130 | 10.8% | 7,934 | 10.1% | 7,972 | 9.3% |
| Treisio | 3,264 | 4.7% | 3,503 | 4.6% | 3,495 | 4.5% | 3,819 | 4.4% |
| **Cyfanswm** | **68,930** | | **75,452** | | **78,523** | | **85,904** | |

## Erlyniadau Aflwyddiannus

Mae achosion yn methu'n bennaf am resymau megis tystiolaeth annigonol, oherwydd nad yw'r erlyniad er budd y cyhoedd, neu oherwydd bod y diffynnydd yn cael ei ryddfarnu yn yr achos. Hefyd mae achosion sy'n methu mynd ymlaen oherwydd bod dioddefwyr neu dystion yn methu mynychu neu'n tynnu'n ôl, a'r achosion hynny sy'n destun i gwblhad gwaith gweinyddol. Roedd y cyfrannau ym mhob categori'n amrywio ychydig o'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2009-10, roedd 2.6% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol o'i gymharu â 3.2% yn 2008-09; 37.8% am resymau tystiolaethol, gostyngiad o ychydig dros un pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; 7.5% am resymau budd y cyhoedd, cynnydd o 6.7% a gofnodwyd yn 2008-09; 29.1% yn methu mynd ymlaen, ychydig dros alldro 28.5% y flwyddyn flaenorol; ac roedd 23% am resymau eraill, cynnydd bach o'r flwyddyn flaenorol. Tra bo cynnydd wedi bod mewn niferoedd erlyniadau o 9.4% yn 2009-10 roedd y gyfran a fethodd yn gyffredinol (28%) yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Mae Tabl 5 yn rhoi dadansoddiad gwell, yn dangos y gyfran a fethodd oherwydd materion dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu'n ôl ac achosion ble na wnaeth y dioddefwr fynychu'r gwrandawiad llys), y rheiny ble'r oedd gwrthdaro mewn tystiolaeth neu elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, y rheiny sy'n arwain at rwymo, y rheiny ble cafodd y diffynnydd ei rybuddio, a'r rheiny ble y rhyddhawyd y diffynnydd. Oddi mewn i'r prif resymau hyn, gostyngodd achosion o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl o dros 1 pwynt

canrannol, o 18.9% yn 2007-08 i 17.3% yn 2009-10, tra bu cynnydd bach o ychydig dros 1 pwynt canrannol yn y gyfran o fethiant oherwydd diffyg presenoldeb y dioddefwr, ac yn y gyfran ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi achos yr erlyniad. Arhosodd y gyfran methiant cyffredinol yn yr un cyfnod oherwydd rhesymau dioddefwyr yr un fath ar 45% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus. Tra bod rhesymau allweddol eraill, fel gwrthdaro tystiolaeth, rhybudd neu dystion annibynadwy wedi aros yn fras yr un fath dros y tair blynedd, gostyngodd y gyfran a arweiniodd at rwymo o 5.7% yn 2007-08 i 3.3% yn 2009-10, a chynyddodd rhyddfarnau o dros 3 pwynt canrannol, o 15.7% i 19.1%. Yn gyffredinol roedd y rhesymau allweddol yn cyfrif am 87% o'r holl resymau dros fethiant achosion mewn troseddau TEM, ychydig o newid ers 2007-08.

### Tabl 5 – Cymhariaeth o'r Prif Resymau dros Erlyniadau Aflwyddiannus

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 4,201 | 17.3% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 2,688 | 11.1% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 3,966 | 16.4% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | **10,855** | **44.8%** |
| Rhybudd | 277 | 1.1% |
| Rhwymo | 810 | 3.3% |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 1,255 | 5.2% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 1,268 | 8.0% |
| Tyst yn annibynadwy | 1,268 | 5.2% |
| Effaith ar iechyd corfforol new feddyliol dioddefwr/tyst | 116 | 0.5% |
| Rhyddfarnu | 4,627 | 19.1% |
| ***Cyfanswm Rhesymau Allweddol*** | ***21,135*** | ***87.2%*** |
| Pob Rheswm Arall | 2,468 | 10.2% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 624 | 2.6% |
| **Cyfanswm** | **24,227** | |

Mae'r rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus ym mhob maes unigol o drosedd TEM yn cael eu hadrodd yn y rhannau perthnasol o'r adroddiad hwn. Roedd gwahaniaethau i'w gweld yn y materion allweddol dioddefwyr ar draws y meysydd: mae materion dioddefwyr yn hynod o amlwg fel ffactor mewn methiant achosion o drais domestig, ond yn llai amlwg yn achos meysydd trosedd eraill. Y prif reswm dros erlyniadau aflwyddiannus yn achos treisio neu droseddau rhywiol yw rhyddfarnau; mae prif resymau eraill yn cynnwys elfennau cyfreithiol hanfodol ar goll, tystion annibynadwy, a gwrthdaro tystiolaeth.

Mae tabl 6 yn dangos y nifer a chyfran materion dioddefwyr mewn perthynas â'r *holl* ganlyniadau. Gostyngodd y gyfran, o 14.6% yn 2006-07 i 12.6% yn 2009-10. Gostyngodd cyfanswm canlyniadau aflwyddiannus o 35% yn 2005- 06 i 28% yn 2009-10.

Roedd materion dioddefwyr yn cyfrif am 15.7% o ganlyniadau trais domestig yn 2007-08, gan ostwng i 14% yn 2009-10.

**Tabl 6 – Materion Dioddefwyr mewn perthynas â'r holl Ganlyniadau**

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *10,855* | *12.6%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 61,677 | 71.8% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 24,227 | 28.2% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **85,904** | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, mae achos pob diffynnydd yn cael Prif Gategori Trosedd, i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd.

Troseddau yn erbyn yr unigolyn oedd y categori mwyaf niferus, yn cynrychioli 59% o erlyniadau trosedd TEM yn 2009-10; yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Roedd troseddau rhywiol a difrod troseddol yn cyfrif am 15% ac 11% pellach yn ôl eu trefn. Cofnodwyd patrwm tebyg i ddiffynyddion a oedd yn ddynion, gyda 59% yn cael eu categoreiddio fel troseddau corfforol, 16% yn droseddau rhywiol ac 11% yn ddifrod troseddol. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer diffynyddion benywaidd, gyda throseddau corfforol a difrod troseddol yn uwch ar 62% a 12%, tra bod troseddau rhywiol yn is ar 7%. Roedd troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus yn gyfran uwch yn achos menywod na dynion, ar 9% o'i gymharu â 5%. Dynion oedd 93% o ddiffynyddion ble y dynodwyd eu prif drosedd fel trosedd erbyn yr unigolyn, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.  Mewn achosion o drais domestig, troseddau corfforol oedd y mwyaf niferus ar gyfer dynion a menywod, ar 69% a 66% yn ôl eu trefn, yn debyg i 2008-09.


## Cydraddoldeb:

### *(i) Diffynyddion*

#### Rhyw

Mae Tabl 7 yn rhoi dadansoddiad o ryw diffynyddion a dioddefwyr yn eu tro. Ni fu newid mawr yn y gyfran o ddynion a erlynwyd, sef 95% yn 2006-07 a 94% yn 2009-10. Yn y cyfnod olaf roedd 93% o ddiffynyddion mewn erlyniadau trais domestig, 99% mewn achosion treisio, a 96% mewn troseddau rhywiol heblaw am dreisio, yn ddynion

### Tabl 7 – Erlyniadau wedi'u Cyflawni yn ôl Rhyw'r Diffinydd




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 3,339 | 4.8% | 4,176 | 5.5% | 4,668 | 5.9% | 5,476 | 6.4% |
| Dynion | 65,580 | 95.1% | 71,263 | 94.4% | 73,827 | 94.0% | 80,413 | 93.6% |
| Ni wyddys | 11 | 0.0% | 13 | 0.0% | 28 | 0.0% | 15 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **68,930** | | **75,452** | | **78,523** | | **85,904** | |

### Ethnigrwydd

Cesglir data Ethnigrwydd ar ddiffynyddion gan y CPS yn unol â diffiniadau cytunedig y System Cyfiawnder Troseddol i'r 16+1 o gategorïau ethnig. Yn 2009-10, nodwyd bod 75% o ddiffynyddion trosedd TEM yn perthyn i gategori Prydeinig Gwyn, a chafodd 79% eu categoreiddio yn Wyn (76% a 79% yn 2007-08); 5% o ddiffynyddion a ddynodwyd yn Asiaidd, a 6% pellach fel Du, ffigyrau tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Ni wnaeth ychydig dan 3% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd ar arestiad ac mewn ychydig dros 4% o achosion pellach, ni chafodd ethnigrwydd y diffynnydd ei roi i'r CPS gan yr heddlu ei gwblhau.


### Oed

Mae data ar oed diffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS gan gyfeirio at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oed unigol o'r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 18-24 oed (25%) a'r rhai rhwng 25-59 oed (67%) oedd y categorïau mwyaf niferus fel yn 2007-08, ar 23% a 69% yn eu trefn. Roedd oed yn amrywio dros y meysydd; yn achos trais domestig roedd y mwyafrif o ddiffynyddion (94%) rhwng 18-24 a 25-59 oed, tra yn achos treisio roedd 81% o ddiffynyddion wedi eu cofnodi o fewn y bandiau oed hyn (18-59) gyda 12% pellach yn 17 oed neu iau.

### *(ii) Dioddefwyr*

Mae tabl 8 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Cafwyd y data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Cafwyd gwelliannau wrth gofnodi rhyw o 35% o ddioddefwyr yn 2006-07 i 81% yn 2009-10. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon, er yn gwella, yn dal i gael ei ddatblygu. Nid oes unrhyw ddata'n cael ei gadw ar ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio. O'r dioddefwyr hynny ble y dynodwyd eu rhyw, roedd y gyfran uchaf yn fenywod, sef 85% yn 2006-07, 86% yn 2007-08 ac 85% yn 2008-09 a 2009-10. Ble y dynodwyd rhyw, roedd 85% o ddioddefwyr yn fenywod mewn achosion o drais domestig, ac 89% yn fenywod mewn achosion o dreisio.

**Tabl 8 – Rhyw Dioddefwyr ***




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 7,882 | 29.3% | 19,514 | 37.3% | 34,705 | 54.5% | 51,970 | 68.7% |
| Dynion | 1,405 | 5.2% | 3,239 | 6.2% | 6,064 | 9.5% | 9,336 | 12.3% |
| Ni wyddys | 17,682 | 65.5% | 29,524 | 56.5% | 22,914 | 36.0% | 14,367 | 19.0% |
| **Cyfanswm** | **26,979** | | **52,277** | | **63,683** | | **75,673** | |

* Nid yw data'n cynnwys dioddefwyr Troseddau Rhywiol sy'n eithrio treisio.
Adroddwyd data o 2006-07 ar gyfer yr holl ddioddefwyr boed hwy'n ddinasyddion neu beidio; dim ond am ddioddefwyr sy'n ddinasyddion mae data 2007-08 yn adrodd.

### Data cydraddoldeb arall

Cafwyd y data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion. Mae data ar ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006 ymlaen, a data ar oed o Ebrill 2007 ymlaen. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei ddatblygu – er enghraifft mae 53% o ethnigrwydd dioddefwyr yn dal i fod heb ei ddatgan neu heb ei gyflenwi ac mae 25% o ddata band oed wedi'i gofnodi fel heb ei ddarparu, felly ni chynhwysir y data yn yr adroddiad presennol. Mae gwaith yn cael ei wneud yn 2010 – 2011 i wella casglu data a'i ansawdd.

## Perthnasau – Achosion o drais domestig yn unig

Er bod cyfleusterau ar gyfer casglu gwybodaeth ar y berthynas rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr mewn achosion o drais domestig wedi bod yn ei le ers Ebrill 2007, mae'r niferoedd a gofnodir yn rhy fychan i dynnu unrhyw gasgliadau ohonynt. Fodd bynnag, er gwaethaf cyfyngiadau'r data yma, mae'r nifer o berthnasau a gofnodwyd wedi gwella o 5.2% yn 2007-08, i 28.8% yn 2008-09 ac i 20.4% yn 2009-10. O'r rhai a gofnodwyd y prif berthnasau oedd y rhai rhwng partneriaid a chynbartneriaid. Bwriedir cynnal trafodaethau gyda Grwpiau i ystyried ffyrdd o wella casglu data a'i ansawdd.

## Mesurau Gofal Dioddefwyr

Mae'r data yn y tablau a sylwadau isod yn ymwneud ag achosion ble y plediwyd yn ddieuog i o leiaf un drosedd yn y gwrandawiad cyntaf neu ble y bu gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fel treial, Newton[9] neu wrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn a, ble'r oedd yr Uned Gofal Tystion yn rhan o gefnogi'r dioddefwr. Ble bo dioddefwyr a thystion, mewn achosion sy'n arbennig o ddifrifol neu

[9] Gwrandawiad Newton yw pan fo diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiad ond ei fod yn dadlau ynghylch sail ffeithiol achos yr erlyniad yn ei erbyn. Fel arfer mae hyn yn golygu fod y diffynnydd yn haeru ei fod wedi chwarae rôl lai yn y drosedd a fyddai'n golygu dedfryd lai. Mae'r broses yn debyg i dreial heblaw nad oes rheithgor.

sensitif, yn cael eu cefnogi gan Unedau Heddlu Arbenigol, ni fydd gwybodaeth a ddarparwyd yn dangos y gefnogaeth a roddwyd yn cael ei chynnwys yn y data hwn.

Yn ystod y cyfnod adolygiad, nid oedd nifer o Ardaloedd CPS naill ai'n defnyddio'r System Reoli Tystion neu'n defnyddio'r system yn llawn; felly nid yw'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn. Yn ychwanegol, nid oes data'n cael ei ddal ar ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio. Bwriedir i'r WMS gael ei ddefnyddio fel system reoli achos ac nid fel arf monitro; felly efallai nad yw data mor gyson neu gadarn â data arall a geir yn yr adroddiad hwn. Dyma'r tro cyntaf i'r data hwn gael ei gynnwys yn y Adroddiad Blynyddol Trosedd Trais yn Erbyn Menywod y CPS.

### Tabl 9 – Mesurau Gofal Dioddefwyr Trosedd TEM

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| (i) Atgyfeiriadau i asiantaethau cefnogol neu archwilio cymorth arall | | |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **44,504** | |
| Atgyfeiriad wedi'i gynnig | 23,902 | 53.7% |
| Atgyfeiriad wedi'i wneud | 11,255 | 47.1% |
| **Mathau o atgyfeiriadau a wnaethpwyd ****| | |
| **Cyfanswm atgyfeiriadau** | **12,971** | |
| Atgyfeiriad asiantaeth trosedd casineb | 146 | 1.1% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Cymorth i Ddioddefwyr | 2,156 | 16.6% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Gwasanaeth Tystion | 8,412 | 64.9% |
| Atgyfeiriad arall | 2,257 | 17.4% |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **44,504** | |
| Archwilio cymorth arall | 15,181 | 34.1% |
| *(ii) Mesurau mynychu* | | |
| Yn ofynnol mynychu | 30,881 | 69.4% |
| Presenoldeb gwirioneddol | 23,926 | 77.5% |
| Derbyn ymweliad cyn-treial | 7,042 | 22.8% |

* mae'r nifer o fathau o atgyfeiriad yn debygol o fod yn fwy na'r nifer o atgyfeiriadau a wnaethpwyd oherwydd y gellir atgyfeirio'r dioddefwr i fwy nag un asiantaeth

** dioddefwyr sy'n gysylltiedig ag achosion ble y cyflwynwyd ple ddieuog ar y gwrandawiad cyntaf neu wrandawiadau cysylltiedig â thystion (treial, treial wedi ei chlywed yn rhannol, gwrandawiad Newton, gwrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn).

## Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth

Yn ystod 2009 - 10, cynigwyd 23,902 (53.7%) o atgyfeiriadau i ddioddefwyr trosedd TEM yn gysylltiedig ag achosion ble'r oedd ple ddieuog wedi ei chyflwyno neu gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst. O'r rhain, gwnaethpwyd 11,255 neu 47.1%. Gellir gwneud atgyfeiriadau i nifer o asiantaethau cymorth arbenigol ac mae'r data a gasglwyd yn rhoi arwydd fod 64.9% o atgyfeiriadau wedi eu gwneud i'r Gwasanaeth Tystion, 16.6% i Gymorth i Ddioddefwyr a 1.1% i asiantaeth trosedd casineb. Roedd y 2,257 neu 17.4% yn weddill yn destun i atgyfeiriad i asiantaeth arall. Gellir atgyfeirio dioddefwr (neu dyst) i fwy nag un asiantaeth.

Hefyd mae'n debygol fod atgyfeiriadau i Gymorth i Ddioddefwyr neu asiantaethau arbenigol wedi cael eu gwneud ynghynt yn y broses cyfiawnder troseddol gan yr heddlu neu asiantaethau eraill. Mae'n debygol y bydd rhai o'r dioddefwyr a atgyfeiriwyd at Gymorth i Ddioddefwyr wedi cael eu hatgyfeirio ymlaen i wasanaeth arbenigol yn dilyn asesiad angen gan yr asiantaeth hon.

Ymchwiliwyd i anghenion cymorth 34.1% o ddioddefwyr trosedd TEM, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst neu ble mae ple ddieuog wedi ei chyflwyno, yng nghyswllt eu presenoldeb yn y llys, fel gofal plant neu gludiant. Derbyniodd 22.8% o ddioddefwyr yr oedd angen iddynt fynychu llys ymweliadau llys cyn-treial.

## Presenoldeb yn y llys

Roedd angen i 69.4% o ddioddefwyr trosedd TEM, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fynychu llys, ac o'r rhain mynychodd 77.5%. Mae'r ffigwr presenoldeb uchel yn awgrymu fod y cymorth a roddir gan yr Unedau Gofal Tystion yn helpu dioddefwyr aros yn gysylltiedig â'r broses cyfiawnder troseddol.

## Mesurau Arbennig

Nid yw data'r CPS ar fesurau arbennig yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Bydd prosiect ymchwil yn cael ei gynnal yn 2010-2011 sy'n amcanu at helpu'r CPS gael mewnwelediad i feysydd ble y gwyddys efallai bod angen gwelliannau; yn cynnwys dynodi'r angen am fesurau arbennig; cyfathrebu rhwng asiantaethau a gyda thystion yngl n â mesurau arbennig; ac amseroldeb ceisiadau mesurau arbennig.

# Trais Domestig

Cyhoeddodd y CPS ail ddiwygiad o'i Bolisi a Chyfarwyddyd ar Erlyn Achosion o Drais Domestig ym Mawrth 2009. Roedd y cyfnod 2009/10 yn amser o gadarnhau a phlannu'r Polisi a Chyfarwyddyd newydd. Amcan y Polisi a Chyfarwyddyd diwygiedig oedd adeiladu cynhwysedd a hyder yn erlynyddion y CPS, i fedru ymdrin â'r achosion hyn sy'n rhai heriol yn aml.

Mae presenoldeb y rhwydwaith cenedlaethol o gydlynwyr trais domestig ac/neu cydlynwyr trais yn erbyn menywod yn golygu fod rhwydwaith gweithredol a strategol wedi'i sefydlu'n dda o erlynyddion profiadol, sy'n hanfodol mewn sicrhau gweithredu'r polisi'n lleol.

Cyflwynwyd estyniad gorchmynion atal i bob trosedd ar euogfarn, ac mewn rhai amgylchiadau ar ryddfarn, ym Medi 2009. Roedd y ddarpariaeth hon yn galluogi'r CPS yn well i ddiogelu dioddefwyr camdriniaeth ddomestig sy'n aml yn ofni rhagor o drais. Gweithiodd yr Arweinydd Polisi gyda'r Heddlu, y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod dull cydlynol a chyson gan yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth. Cynhyrchwyd Canllaw Cyfreithiol i gefnogi erlynyddion a oedd eisiau atgoffa'r llys o'u pwerau ar ddiwedd achos perthnasol. Yn ychwanegol, diwygiwyd y daflen dioddefwr a thyst sy'n cynnwys rhestr o 'gwestiynau a ofynnir yn aml' mewn trais domestig ac a ystyrir yn enghraifft o arfer da yn 2009 - 10 i gynnwys gwybodaeth yngl n â gorchmynion atal.

Mae'r CPS hefyd yn chwarae rôl allweddol yn y Rhaglen Llys Arbenigol Trais Domestig Cenedlaethol (SDVC). Mae'r nifer o SDVCs wedi mynd uwchlaw'r targed o 128, a osodwyd gan y weinyddiaeth flaenorol, gyda 141 o lysoedd yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2010. Mae llywodraethiad SDVCs, eu rheolaeth perfformiad a sicrhau ansawdd wedi'i ddatganoli i fyrddau cyfiawnder troseddol lleol (LCJBs) o 1 Ebrill 2010. Fel rhan o'r tîm cenedlaethol, hwylusodd y CPS nifer o weithdai i'r LCJBs, i'w helpu adeiladu cynhwysedd ar gyfer y datganoli. Hefyd drafftiwyd gyfarwyddyd ysgrifenedig, i roi cymorth parhaus i LCJBs, ar ôl Ebrill 2010.

Mae 26 o baneli craffu trais domestig Ardal yn cynnwys partneriaid cymunedol yn craffu a chynghori ar well ymarfer.

Yn 2009 - 10, gostyngodd y penderfyniad i gyhuddo i 63% o benderfyniadau cyn-cyhuddo, o 65% yn 2008-09, yn erbyn cynnydd o 13% yn y nifer o achosion a ddaeth ymlaen i'w cyhuddo. Arhosodd pledio'n euog ar 65% gan ddangos gostyngiad parhaus yn y cyfnod o gyhuddo i ganlyniad, gyda'r angen am lai o achosion ar gyfartaledd.

Arhosodd y gyfran o ddiffynyddion a oedd yn ddynion yn debyg i 2008-09 ar 93%. Arhosodd y gyfran o ddioddefwyr a oedd yn fenywod yr un fath ar 85%. Roedd y mathau o droseddau'n amrywio ychydig yn ôl rhyw, gyda mwy o ddynion yn gyfrifol am droseddau corfforol (69% i ddynion a 66% i fenywod, o'u holl droseddau) a mwy o fenywod yn gyfrifol am droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (10% o droseddau a gyflawnwyd gan fenywod o'i gymharu â 6% o'r rhai a gyflawnwyd gan ddynion). Dynion oedd 93% o'r diffynyddion y nodwyd mai troseddau corfforol oedd eu prif drosedd. Roedd 80% o ddiffynyddion yn Wyn, 6% yn Ddu a 5% Asiaidd, gyda 2% heb nodi ethnigrwydd a 4% heb eu darparu gan yr heddlu.

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd cyfran debyg o achosion wedi'u terfynu, yn cynnwys y rheiny ble nad oedd tystiolaeth yn cael ei chynnig. Roedd materion dioddefwyr yn dal i gyfrif am hanner yr holl achosion aflwyddiannus. Yn gyfrannol, roedd ychydig yn llai oherwydd nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos, ond tynnodd ychydig mwy o ddioddefwyr yn ôl neu ni wnaethant fynychu. Mae hyn yn parhau i ddangos yr angen am gymorth i ddioddefwyr, yn enwedig drwy Gynghorwyr Annibynnol ar

DD (IDVAs) i sicrhau nid yn unig ostyngiad mewn tynnu'n ôl, ond hefyd parodrwydd i fynychu llys neu barhau gyda thystiolaeth gefnogol. Gallai gwaith gyda'r Uned Cyflenwi Gofal Dioddefwyr a Thystion i wella atgyfeiriadau fod o gymorth.

Mae'r CPS yn rhan o'r tîm traws-Lywodraeth cenedlaethol sy'n cyflenwi gwaith y Llywodraeth ar drais domestig. Ategir y gr p gan Uned Rithiol Trais Domestig traws-lywodraeth yn cysylltu â'r strategaeth TEM traws-lywodraeth ehangach.

Ym Mawrth 2010, thema'r CPS ar gyfer Mis Gweithredu'r Llywodraeth ar drais domestig cenedlaethol oedd ymgyrch poster i gefnogi cyhoeddi Cyfarwyddyd Gweithwyr i Drais yn erbyn Menywod. Roedd y posteri hyn yn cael eu harddangos ar draws y sefydliad i amlygu'r polisi newydd a'r buddiannau i staff.

**Cyflawnwr trosedd cyfresol – defnydd o gymeriad drwg ac achlust**

Roedd y diffynnydd, cyflawnwr trosedd cyfresol, wedi ymosod ar ei bartner newydd. Aeth yr achos i Lys y Goron, ond gwrthododd y dioddefwr fynychu oherwydd ei bod yn ofni'r dyn hwn yn fawr iawn. Roedd y cyfreithiwr wedi ymdrin ag achos blaenorol gyda'r diffynnydd hwn ac wedi cael euogfarn er gwaethaf apêl. Felly drafftiodd y cyfreithiwr rybudd llawn o gymeriad drwg, ac yna rhoddwyd rhybudd achlust pan wrthododd y dioddefwr fynychu. Rhoddodd y teulu ddisgrifiad o'i hofn, ac ystyriodd y Barnwr y cais i gyflwyno ei datganiad o dan ddarpariaethau achlust, a'i ganiatáu, ynghyd â'r cymeriad drwg.

Roedd y cwnsler yn y Llys yn Adfocad Llys Uwch o'r CPS. Rhoddwyd euogfarn i'r diffynnydd a chafodd ei garcharu am 6 blynedd i gyd.

**Gorllewin Mersia, Gogledd Cymru a Cumbria:**
**Paneli Craffu Trais yn erbyn Menywod/ Trais Domestig**

Mae'r Paneli Craffu TEM/Trais Domestig yn dod ag aelodau'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol (VCS) i'r CPS, ynghyd â cyfreithwyr CPS ac ymgynghorwyr cyfreithiol annibynnol i adolygu ar y cyd a chraffu ar ddetholiad ar hap o achosion trais yn erbyn menywod sydd wedi'u cwblhau – yn cynnwys trais domestig, treisio ac ymosodiad rhywiol. Pwrpas y cyfarfodydd panel hyn yw gofyn i'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol beth all y CPS ei wneud yn well yn yr ymdriniaeth a chanlyniadau'r fath achosion. Mae'r paneli hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r CJS ac yn gwella hyder yn y penderfyniadau mae'n eu gwneud a thrwy hynny annog dioddefwyr a thystion i adrodd am ddigwyddiadau. Mae gweithio'n agos â'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn y craffu hwn wedi cynorthwyo'r CPS i weithio tuag at flaenoriaethau lleol.

Mewn arolwg yn 2009-10, dywedodd 98% o aelodau cymunedol eu bod yn teimlo fod y CPS yn gwrando ar eu barn ac yr oedd 78% yn hyderus y byddai'r argymhellion a wnaethpwyd gan y panel yn cael eu gweithredu gan y CPS yn y dyfodol agos. Mae'r paneli hefyd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r CPS i'r materion a wynebir gan ddioddefwyr fel maent yn mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol. Galluogodd hyn i erlynyddion a swyddogion gofal tystion fod yn fwy sensitif i'w hanghenion a rhoi gwell cefnogaeth i'w galluogi i roi gwell safon o dystiolaeth a gwella'r rhagolygon o ddod â throseddwyr i gyfiawnder.

# Prif Ganfyddiadau Trosedd Trais Domestig


Ers Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi bod yn adrodd ar erlyn troseddau trais domestig fel rhan o'r broses adolygu perfformiad. Cafodd trais domestig ei gynnwys yn adroddiadau'r CPS ar drosedd casineb hyd at Fawrth 2008, ond o Ebrill 2008 adroddir amdano fel rhan o'r strategaeth drais yn erbyn menywod (TEM), gan fesur perfformiad yn erbyn dangosydd TEM newydd.

Daw data'r CPS o system weinyddol TG y CPS, ac maent yn cael eu defnyddio ar gyfer rheoli perfformiad mewnol. O'r herwydd ni ddylid ystyried y rhain fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth. Fel gydag unrhyw system gofnodi fawr, mae'r data hwn yn destun i gamgymeriadau posib gyda mewnbynnu a phrosesu data. Mae'r ffigyrau yn rhai dros dro ac yn destun i newid fel bo rhagor o wybodaeth yn cael ei chofnodi gan y CPS.

## Cyhuddo

Gostyngodd nifer yr achosion ble penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo diffynnydd ychydig o 63.6% o'r achosion o drais domestig a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2007- 08 i 62.8% yn 2009-10. Yn ystod y cyfnod adolygiad, cynyddodd y niferoedd a atgyfeiriwyd i'r CPS am benderfyniad cyhuddo o dros 17,100 neu 23% o 74,065 i 91,184 yn 2009-10.

**Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn-cyhuddo ***




| Pob Diffynnydd | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 47,115 | 63.6% | 52,418 | 65.2% | 57,256 | 62.8% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 510 | 0.7% | 467 | 0.6% | 507 | 0.6% |
| Dim erlyniad | 20,088 | 27.1% | 20,466 | 25.4% | 24,274 | 26.6% |
| Pob penderfyniad arall | 6,352 | 8.6% | 7,072 | 8.8% | 9,147 | 10.0% |
| **Cyfanswm** | **74,065** | | **80,423** | | **91,184** | |


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

** Dangosir y penderfyniadau cyn-cyhuddo yn gynwysedig o achosion ble na ddaliwyd yn llawn ddeilliant y penderfyniad yng nghofnodion y CPS. Mae'r ffigyrau presennol felly'n wahanol i'r rheiny yn adroddiad 2007-08*

## Euogfarnau

Mae'r tabl a siart 2 isod yn rhoi dadansoddiad o erlyniadau dros y cyfnod pum blynedd, yn dangos bod euogfarnau wedi cynyddu o 60% yn 2005-06 i 72% yn 2009-10. Yn ystod y cyfnod pedair blynedd o 2006-07, mae'r niferoedd a erlynwyd gan y CPS wedi cynyddu o 16,752, neu 29%, o 57,361 yn 2006-07 i 74,113 yn 2009-10.

### Tabl 2 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 29,719 | 59.7% | 37,383 | 65.2% | 43,977 | 68.9% | 48,465 | 72.2% | 53,347 | 72.0% |
| Aflwyddiannus | 20,063 | 40.3% | 19,978 | 34.8% | 19,842 | 31.1% | 18,629 | 27.8% | 20,766 | 28.0% |
| **Cyfanswm** | **49,782** | | **57,361** | | **63,819** | | **67,094** | | **74,113** | |


Mae'r tabl a'r siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniadau ar gyfer troseddau trais domestig o 2007-08 i 2009-10. Dros y cyfnod tair blynedd yn terfynu Mawrth 2010, cododd niferoedd erlyniadau o 16% neu 10,294. Cynyddodd digwyddiadau o bledio'n euog o 62% i 65%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 72% ar y cyfan yn 2008-09 a 2009-10. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 25% i lai na 22%.

## Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn

### Euogfarnau




### Canlyniadau Aflwyddiannus





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *15,788* | *24.7%* | *14,425* | *21.5%* | *16,101* | *21.7%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *8,505* | *13.3%* | *7,632* | *11.4%* | *8,665* | *11.7%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 2,359 | 3.7% | 2,554 | 3.8% | 2,916 | 3.9% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 83 | 0.1% | 77 | 0.1% | 104 | 0.1% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 441 | 0.7% | 547 | 0.8% | 658 | 0.9% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 1,171 | 1.8% | 1,026 | 1.5% | 987 | 1.3% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **19,842** | **31.1%** | **18,629** | **27.8%** | **20,766** | **28.0%** |
| Ple euog | 39,326 | 61.6% | 43,586 | 65.0% | 48,027 | 64.8% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 4,552 | 7.1% | 4,781 | 7.1% | 5,204 | 7.0% |
| Profwyd yn absenoldeb | 99 | 0.2% | 98 | 0.1% | 116 | 0.2% |
| **Euogfarnau** | **43,977** | **68.9%** | **48,465** | **72.2%** | **53,347** | **72.0%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **63,819** | | **67,094** | | **74,113** | |

## Erlyniadau Aflwyddiannus:

Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion yn ymwneud â dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bydd dioddefwr yn methu mynychu gwrandawiad llys), y rhai ble'r oedd gwrthdaro tystiolaeth neu elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, y rheiny sy'n arwain at rwymo, achosion ble y derbyniodd y diffynnydd rybudd, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd ryddfarn. O fewn y prif resymau hyn, arhosodd y gyfran a fethodd oherwydd dioddefwr yn tynnu'n ôl fel y categori unigol mwyaf; yn aros ar oddeutu 50% ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Tra bod dioddefwr yn tynnu'n ôl wedi gostwng i ychydig dan 2 bwynt canrannol yn ystod y cyfnod i 19.3%, cynyddodd y gyfran ble nad oedd tystiolaeth dioddefwyr yn cefnogi achos yr erlyniad ychydig o 17% i 18%. Roedd cynnydd mewn rhyddfarnau o 12% i 15% a gostyngiad mewn rhwymo o 7% i 4%.

**Tabl 4 – Prif Resymau dros Erlyniadau Aflwyddiannus**




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu'n ôl | 4,207 | 21.2% | 3,470 | 18.6% | 4,002 | 19.3% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 2,409 | 12.1% | 2,226 | 11.9% | 2,647 | 12.7% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos | 3,406 | 17.2% | 3,536 | 19.0% | 3,731 | 18.0% |
| **Cyfanswm Materion dioddefwyr** | **10,022** | **50.5%** | **9,232** | **49.6%** | **10,380** | **50.0%** |
| Tystiolaeth yn Gwrthdaro | 764 | 3.9% | 833 | 4.5% | 948 | 4.6% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 1,376 | 6.9% | 1,451 | 7.8% | 1,578 | 7.6% |
| Tyst Annibynadwy | 957 | 4.8% | 924 | 5.0% | 994 | 4.8% |
| Effaith ar iechyd meddwl Dioddefwr/Tyst | 79 | 0,4% | 103 | 0.6% | 77 | 0.4% |
| Rhyddfarnau | 2,357 | 11.9% | 2,591 | 13.9% | 3,131 | 15.1% |
| Rhybudd | 234 | 1.2% | 196 | 1.1% | 244 | 1.2% |
| Rhwymo | 1,311 | 6.6% | 881 | 4.7% | 794 | 3.8% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *17,100* | *86.2%* | *16,211* | *87.0%* | *18,146* | *87.4%* |
| Holl Resymau Eraill | 1,970 | 9.9% | 1,821 | 9.8% | 2,085 | 10.0% |
| Cwblhau gwaith gweinyddol | 772 | 3.9% | 597 | 3.2% | 535 | 2.6% |
| **Cyfanswm** | **19,842** | | **18,629** | | **20,766** | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â *phob* canlyniad. Er bod cynnydd yn nifer y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr, o 10,022 yn 2007-08 i 10,380 yn 2009-10, bu cwymp o ran cyfran, o 16% i 14%. Gostyngodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o 40% yn 2005-06 i 28% yn 2009-10.

## Tabl 5 – Cymhariaeth o Brif Materion dioddefwyr

### Materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau



**% Materion dioddefwyr**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *10,022* | *15.7%* | *9,232* | *13.8%* | *10,380* | *14.0%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 43,977 | 68.9% | 48,465 | 72.2% | 53,347 | 72.0% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 19,842 | 31.1% | 18,629 | 27.8% | 20,766 | 28.0% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **63,819** | | **67,094** | | **74,113** | |

## Categori'r prif drosedd

Y categori mwyaf niferus oedd troseddau yn erbyn yr unigolyn, a oedd yn cynrychioli 69% o erlyniadau trosedd trais domestig yn 2009 - 10. Roedd difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 13% a 7% pellach yn ôl eu trefn. Wrth rannu'r categorïau yn ôl rhyw, gwelir bod patrwm tebyg wedi'i gofnodi ar gyfer dynion, gyda 69% yn cael eu categoreiddio fel troseddau corfforol, 13% fel difrod troseddol, a 6% fel trefn gyhoeddus. Yr oedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol ychydig yn is ar 66% a difrod troseddol yr un fath ar 13%, tra'r oedd trefn gyhoeddus ychydig yn uwch ar 10%. Dynion oedd 93% o'r diffynyddion y nodwyd mai troseddau corfforol oedd eu prif drosedd.

## Tynnu'n Ôl

Tra bod y cyfleuster i gasglu gwybodaeth ar fater dioddefwyr yn tynnu'n ôl mewn achosion trais domestig wedi bod yn ei le ers Ebrill 2007, mae'r data'n anghyflawn ac felly nid yw'n gwbl ddibynadwy. Dim ond 0.7% o achosion trais domestig gofnododd fanylion o erlyniadau ar ôl tynnu'n ôl yn 2009-10. Bwriedir cynnal trafodaethau gyda Grwpiau i ystyried ffyrdd posib o wella casglu data a'i ansawdd


# Cydraddoldeb

## *(i) Diffynyddion*

### Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw'r diffynyddion. Gostyngodd y gyfran o ddiffynyddion a oedd yn ddynion o 94% yn 2007-08 i 93% yn 2009-10.

**Tabl 6 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw'r Diffynnydd**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 3,770 | 5.9% | 4,266 | 6.4% | 5,082 | 6.9% |
| Dynion | 60,037 | 94.1% | 68,805 | 93.6% | 69,019 | 93.1% |
| Ni wyddys | 12 | 0.0% | 23 | 0.0% | 12 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **63,819** | | **67,094** | | **74,113** | |

### Ethnigrwydd

Mae data ethnigrwydd data ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytûn ar gyfer y categorïau ethnig 16+1. Yn 2009-10, dynodwyd 80% o ddiffynyddion trosedd trais domestig yn Wyn. Dynodwyd bod 76% o ddiffynyddion trosedd trais domestig yn perthyn i'r categori Prydeinig Gwyn. Nodwyd bod 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 6% pellach yn Ddu. Ni nododd 2% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar arestiad ac ni ddarparwyd 4% o ethnigrwydd i'r CPS gan yr heddlu.

### Oed


Mae data ar oed diffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS gan gyfeirio at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oed unigol o'r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 18 – 24 oed (26%) a'r rhai rhwng 25-59 oed (68%) oedd y categorïau mwyaf niferus fel yn 2007 - 08, at 24% a 70% yn eu trefn. Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, roedd 4% o ddiffynyddion rhwng 14 - 17 oed.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Daw'r data dioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Er bod cofnodi'r data hwn wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 44% o rhyw wedi ei gofnodi yn 2007-08 i 82% yn 2009-10, mae ei gyflawnrwydd a chywirdeb yn dal i gael ei ddatblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd menywod, sef 86% yn 2007-08 ac 85% yn 2008-09 a 2009-10.

**Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr ***




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 18,461 | 37.5% | 33,073 | 55.3% | 49,522 | 69.3% |
| Dynion | 3,078 | 6.3% | 5,841 | 9.8% | 9,042 | 12.7% |
| Ni wyddys | 27,695 | 56.3% | 20,921 | 35.0% | 12,850 | 18.0% |
| **Cyfanswm** | **49,234** | | **59,835** | | **71,414** | |

**Data cydraddoldeb arall**

Mae data ar ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data ar oed o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu – er enghraifft mae 52% ethnigrwydd y dioddefwr yn parhau heb ei ddatgan neu heb ei ddarparu a nodir bod 24% o ddata band oed wedi ei gofnodi fel heb ei ddarparu, felly nid yw'r data hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad presennol. Mae gwaith yn parhau yn 2010-11 i wella casglu data a'i ansawdd.

## Perthnasau Trais Domestig

Tra bod y cyfleuster i gasglu gwybodaeth ar y berthynas rhwng y diffynnydd a dioddefwr mewn achosion trais domestig wedi bod yn ei le ers Ebrill 2007, mae'r niferoedd a gofnodir yn rhy isel i dynnu unrhyw gasgliadau ohonynt. Fodd bynnag, er gwaethaf cyfyngiadau'r data yma, mae'r nifer o berthnasau a gofnodwyd wedi gwella o 5.2% (3,288 allan o 63,819 o ddiffynyddion wedi eu herlyn) yn 2007 – 08, i 28.8% (19,296 allan o 67,094 o ddiffynyddion i gyd) yn 2008-09 ac i 20.4% (15,150 allan o 74,113 o ddiffynyddion) yn 2009-10. O'r rhai a gofnodwyd, roedd y prif berthynas rhwng partneriaid a chynbartneriaid.

## Mesurau gofal dioddefwyr mewn achosion trais domestig

Mae'r data yn y tablau a sylwadau isod yn ymwneud ag achosion ble y plediwyd yn ddieuog i o leiaf un drosedd yn y gwrandawiad cyntaf neu ble y bu gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fel treial, Newton[10] neu wrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn a, ble'r oedd yr Uned Gofal Tystion yn rhan o gefnogi'r dioddefwr. Ble bo dioddefwyr a thystion, mewn achosion sy'n arbennig o ddifrifol neu sensitif, yn cael eu cefnogi gan Unedau Heddlu Arbenigol, ni fydd gwybodaeth a ddarparwyd yn dangos y gefnogaeth a roddwyd yn cael ei chynnwys yn y data hwn.

Yn ystod y cyfnod adolygiad, nid oedd nifer o Ardaloedd CPS naill ai'n defnyddio'r System Reoli Tystion neu'n defnyddio'r system yn llawn; felly nid yw'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn. Bwriedir i'r WMS gael ei ddefnyddio fel system reoli achos ac nid fel arf monitro; felly efallai nad yw data mor gyson neu gadarn â data arall a geir yn yr adroddiad hwn. Dyma'r tro cyntaf i'r data hyn gael ei gynnwys ym Mhennod Prif Ganfyddiadau Trosedd Trais Domestig Adroddiad Trosedd Blynyddol TEM y

### Tabl 8 – Mesurau Gofal Dioddefwyr Trosedd Trais Domestig

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *(i) Atgyfeiriadau i asiantaethau cefnogol neu archwilio cymorth arall* | | |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **41,583** | |
| Atgyfeiriad wedi'i gynnig | 22,319 | 53.7% |
| Atgyfeiriad wedi'i wneud | 10,270 | 46.0% |
| **Mathau o atgyfeiriadau a wnaethpwyd **** | | |
| **Cyfanswm atgyfeiriadau** | **11,768** | |
| Atgyfeiriad asiantaeth trosedd casineb | 142 | 1.2% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Cymorth i Ddioddefwyr | 1,878 | 16.0% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Gwasanaeth Tystion | 7,668 | 65.2% |
| Atgyfeiriad arall | 2,080 | 17.7% |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **41,583** | |
| Archwilio cymorth arall | 14,038 | 33.8% |
| *(ii) Mesurau mynychu* | | |
| Yn ofynnol mynychu | 29,047 | 69.9% |
| Presenoldeb gwirioneddol | 22,143 | 76.2% |
| Derbyn ymweliad cyn-treial | 6,233 | 21.5% |

* mae'r nifer o fathau o atgyfeiriad yn debygol o fod yn fwy na'r nifer o atgyfeiriadau a wnaethpwyd oherwydd y gellir atgyfeirio'r dioddefwr i fwy nag un asiantaeth

** dioddefwyr sy'n gysylltiedig ag achosion ble y cyflwynwyd ple ddieuog ar y gwrandawiad cyntaf neu wrandawiadau cysylltiedig â thystion (treial, treial wedi ei chlywed yn rhannol, gwrandawiad Newton, gwrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn).

[9] Gwrandawiad Newton yw pan fo diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiad ond ei fod yn dadlau ynghylch sail ffeithiol achos yr erlyniad yn ei erbyn. Fel arfer mae hyn yn golygu fod y diffynnydd yn haeru ei fod wedi chwarae rôl lai yn y drosedd a fyddai'n golygu dedfryd lai. Mae'r broses yn debyg i dreial heblaw nad oes rheithgor.

## Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth

Yn ystod 2009-10, cynigwyd 22,319 (53.7%) o atgyfeiriadau i ddioddefwyr trais domestig yn gysylltiedig ag achosion ble'r oedd ple ddieuog wedi ei chyflwyno neu gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst. O'r rhain, gwnaethpwyd 10,270 neu 46%. Gellir gwneud atgyfeiriadau i nifer o asiantaethau cymorth arbenigol ac mae'r data a gasglwyd yn rhoi arwydd fod 65.2% o atgyfeiriadau wedi eu gwneud i'r Gwasanaeth Tystion, 16% i Gymorth i Ddioddefwyr a 1.2% i asiantaeth trosedd casineb. Roedd y 2,080 neu 17.7% yn weddill yn destun i atgyfeiriad i asiantaeth arall. Gellir atgyfeirio dioddefwr (neu dyst) i fwy nag un asiantaeth.

Hefyd mae'n debygol fod atgyfeiriadau i Gymorth i Ddioddefwyr neu asiantaethau arbenigol wedi cael eu gwneud ynghynt yn y broses cyfiawnder troseddol gan yr heddlu neu asiantaethau eraill. Mae'n debygol y bydd rhai o'r dioddefwyr a atgyfeiriwyd at Gymorth i Ddioddefwyr wedi cael eu hatgyfeirio ymlaen i wasanaeth arbenigol yn dilyn asesiad angen gan yr asiantaeth hon.

Ymchwiliwyd i anghenion cymorth 33.8% o ddioddefwyr trais domestig, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst neu ble mae ple ddieuog wedi ei chyflwyno, yng nghyswllt eu presenoldeb yn y llys, fel gofal plant neu gludiant. Derbyniodd 21.5% o ddioddefwyr yr oedd angen iddynt fynychu llys ymweliadau llys cyn-treial.

## Presenoldeb yn y llys

Roedd angen i 69.9% o ddioddefwyr trais domestig, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fynychu llys, ac o'r rhain mynychodd 76.2%. Mae'r ffigwr presenoldeb uchel yn awgrymu fod y cymorth a roddir gan yr Unedau Gofal Tystion yn helpu dioddefwyr aros yn gysylltiedig â'r broses cyfiawnder troseddol.

## Mesurau Arbennig

Nid yw data'r CPS ar fesurau arbennig yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Bydd prosiect ymchwil yn cael ei gynnal yn 2010-2011 sy'n amcanu at helpu'r CPS gael mewnwelediad i feysydd ble y gwyddys efallai bod angen gwelliannau; yn cynnwys dynodi'r angen am fesurau arbennig; cyfathrebu rhwng asiantaethau a gyda thystion yngl n â mesurau arbennig; ac amseroldeb ceisiadau mesurau arbennig.

# Treisio

Mae natur ddifrifol a sensitif treisio'n parhau i gynnig her neilltuol i erlynyddion, yn enwedig mewn achosion sy'n cynnwys mater cydsyniad. Yn 2009-10 cydnabu'r CPS yr angen allweddol i wella erlyniadau treisio o fewn y "genhadaeth hanfodol" ddynodedig TEM gyffredinol.

Roedd gweithio agosach rhwng yr heddlu a'r CPS yn brif amcan gyda phwyslais arbennig ar y cysyniad o ymgynghoriad cynnar rhwng swyddogion heddlu sy'n ymchwilio ac erlynyddion y CPS ar gychwyn yr ymchwiliad heddlu. Pwysleisiwyd yr angen am ddull cydlynol yn y Canllaw ar y cyd rhwng ACPO/CPS ar Ymchwilio ac Erlyn Treisio a gyhoeddwyd yn 2009. Nodwyd lansiad y canllaw, y cyntaf i gael ei gyd-ysgrifennu gan yr Asiantaeth Gwella Heddlu Cenedlaethol a'r CPS, gyda chwech o weithdai heddlu/ CPS rhanbarthol a fynychwyd gan gynrychiolwyr yr holl heddluoedd ac Ardaloedd CPS. Roedd bob digwyddiad yn cynnwys cyflwyniad o erlyniad treisio llwyddiannus lleol diweddar a oedd yn dangos buddiannau cydweithio.

Anogodd ymweliadau ar y cyd i 39 Ardaloedd CPS a heddluoedd yn ystod 2009 -10, gan dîm a oedd wedi ei ffurfio o'r CPS a Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu, fwy o weithio ar y cyd gan Ardaloedd CPS a'u heddluoedd perthnasol. Roedd bob ymweliad yn cynnwys cyfweliadau dwys gyda'r heddlu a phersonél CPS a oedd yn gyfrifol am ymdrin ag achosion o dreisio. Yn ogystal ag ymchwilwyr yr heddlu ac erlynyddion y CPS, roedd y rhai a gyfwelwyd yn cynnwys y rhai sy'n derbyn galwadau yn yr heddlu, swyddogion heddlu wedi'u hyfforddi'n arbennig mewn troseddau rhywiol ac adfocadau treisio CPS. Hefyd cynhaliwyd sesiynau gyda chynrychiolwyr o wasanaethau cymorth arbenigol yn cynnwys staff Canolfan Atgyfeirio Ymosodiad Rhywiol (SARC), Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol ac aelodau sefydliadau sector gwirfoddol, yn ogystal â meddygon fforensig sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau meddygol fforensig y dioddefwyr. Yn dilyn yr ymweliad, roedd Prif Erlynyddion y Goron (CCPs) a'r Prif Swyddogion Heddlu yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig sy'n rhannu arfer da ac yn darparu gweithredoedd a argymhellir ar gyfer gwelliant.

Mae gan yr holl Ardaloedd CPS erlynyddion treisio arbenigol sy'n gyfrifol am ymdrin ag achosion o dreisio yn yr Ardal. Mae arbenigwyr yn derbyn hyfforddiant wedi'i seilio ar astudiaethau achos gwirioneddol sy'n dangos rhai o'r materion cymhleth y gallent eu hwynebu. Mae siaradwyr allanol yn cyflwyno sesiynau ar rai mythau treisio a stereoteipiau cyffredin ac effeithiau seicolegol treisio, a rôl a chyfrifoldebau'r meddyg fforensig wrth ymateb i ymosodiad rhywiol. Bydd cyflenwi'r hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2011. Yn ychwanegol, yn 2009-10, rhoddwyd hyfforddiant arbenigol i holl Brif Erlynyddion y Goron i'w harfogi i wella perfformiad lleol wrth erlyn achosion o dreisio.

Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP), pennaeth y CPS, ei ymrwymiad i wella perfformiad erlyniadau treisio mewn llythyr at yr holl CCPs yn 2009. Ynghyd â Phrif Weithredwr y CPS, mae'r DPP wedi dangos y flaenoriaeth mae'n ei rhoi i'r maes hwn o waith y CPS mewn ymweliadau ag Ardaloedd CPS, gyda rhan ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar y modd mae treisio'n cael ei drin yn lleol fel rhan o waith TEM.

Yn 2009-10 gostyngodd cyhuddiadau ychydig i 36%. Efallai mai un esboniad yw'r angen am waith pellach gyda'r heddlu i ddynodi ffyrdd o wella'r posibilrwydd o gyhuddo ble fo'n briodol. Parhaodd y gyfran o ddynion a erlynwyd yr un fath o 2006 - 2009 ar 99%. Cynyddodd y gyfran o ddioddefwyr benywaidd i 89%. Roedd 65% o ddiffynyddion yn Wyn, 8% yn Asiaidd a 13% yn Ddu, gyda 4% heb nodi ethnigrwydd a 6% heb ei ddarparu gan yr heddlu.

Croesawyd y cynnydd i 37% mewn pledio'n euog, cynnydd o 4% ers 2006-07. Cafodd mwy o achosion o ran nifer a chyfran eu heuogfarnu ar ôl treial – cynnydd mewn nifer o 17%, a chynnydd mewn canlyniadau llwyddiannus o bron i bump y cant, ers 2006-07. Yn gyfrannol, terfynwyd llai o achosion, yn

cynnwys y rheiny ble nad oedd tystiolaeth yn cael ei chynnig. Dim ond am ychydig o achosion aflwyddiannus yr oedd materion dioddefwyr yn cyfrif yn ôl nifer a chyfran (7%). Materion dioddefwyr oedd y rheswm am lai nag un o bob chwech o ganlyniadau aflwyddiannus.. Roedd y nifer a'r gyfran fwyaf o ganlyniadau aflwyddiannus oherwydd rhyddfarnau rheithgor, ar ychydig o dan 45%. Mae hyn yn dangos yr angen am fwy o waith aml-asiantaeth gyda phartneriaid i ymdrin ag ymwybyddiaeth gyhoeddus a herio mythau a stereoteipiau o fewn a thu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol.

**Camdriniaeth hanesyddol**

Erlynwyd yn llwyddiannus gyfres o gamdriniaeth, treisio ac ymosodiadau anweddus hanesyddol ar blant, ochr yn ochr â threisio mam-yng-nghyfraith y diffynnydd. Digwyddodd yr holl droseddau yn yr 1970au a'r 1980au. Yn drist iawn, bu farw'r fam-yng-nghyfraith ar ôl gwneud cyfweliad fideo, ond roedd cadarnhad o'i chŵyn gan dystion eraill. Caniataodd Barnwr y treial i dystiolaeth y fam-yng-nghyfraith gael ei derbyn.

Bu amryw o gynadleddau gyda'r Cwnsler a rhoddodd y dioddefwyr dystiolaeth fyw, gyda chymorth mesurau arbennig. Rhoddwyd gorchymyn i ddeunydd Awdurdod Lleol nad oedd wedi'i ddefnyddio gael ei ddatgelu.

Cafodd y diffynnydd euogfarn ar bob cyfrif ac fe'i dedfrydwyd i 19 mlynedd o garchar. Aeth yr achos i Apêl ar dystiolaeth achlust yr achwynwr a oedd wedi marw, ond collwyd yr Apêl a chadarnhawyd yr euogfarn.

**Sgiliau arbenigol treisio**

Roedd menyw ifanc wedi priodi'r diffynnydd pan yn 15 oed o dan gyfraith Sharia a dioddefodd gyfnod o drais difrifol ac ymddygiad rheolaethol dros nifer o flynyddoedd. Yn dilyn ymosodiad arbennig o fileinig, adroddwyd amdano wrth yr heddlu. I ddechrau, roedd y fenyw yn amharod i gydweithredu â'r heddlu, gan gredu na allai siarad yn erbyn ei gŵr. Pan eglurodd yr heddlu na allai fod yn briodas gyfreithiol, cytunodd i roi cyfweliad a rhoddodd ddisgrifiad o drais domestig difrifol a pharhaus. Yn ystod y disgrifiad o 30-40 o ymosodiadau, soniodd y ddioddefwraig hefyd ei bod wedi cael erthyliad oherwydd ei hofn o fwy o drais, a'i bod wedi ceisio lladd ei hun.

Caniataodd cydgysylltu cynnar rhwng yr heddlu a'r CPS i arbenigwr treisio adolygu'r ffeil gyfan, gan adnabod ffactorau risg yn yr achos. Gyda'u hymwybyddiaeth y gall achosion TEM yn aml gynnwys sawl maes o wahanol fathau o TEM, roedd y cyfreithiwr yn pryderu mai dim ond at drais corfforol yr oedd y wybodaeth gychwynnol yn cyfeirio, heb unrhyw sôn am droseddau rhywiol posib. Gofynnodd y cyfreithiwr i'r heddlu gynnal ail gyfweliad gan roi cyfarwyddyd manwl ynglŷn â'r cwestiynu y dylid ei ddefnyddio i ganfod p'un a oedd y fenyw hon hefyd wedi dioddef troseddau rhywiol. Datgelodd y fenyw gatalog o droseddau rhywiol yn cynnwys treisio. Yn dilyn y cyfweliad pellach hwn, awdurdododd y cyfreithiwr 3 chyfrif o weithgaredd rhywiol â phlentyn a 4 cyfrif o dreisio at yr hyn oedd yn wreiddiol yn achos ymosodiad. Gwadodd y diffynnydd yr holl droseddau mewn cyfweliad.

Ar ddiwrnod y treial, llediodd y diffynnydd yn euog i'r holl ymosodiadau a thri o'r troseddau rhywiol. Ar ôl ymgynghori â'r ddioddefwraig (y dywedir ei bod yn hynod falch), derbyniwyd y pledion. Dedfrydwyd y diffynnydd i bedair blynedd a hanner o garchar.

Dyma achos a gyhuddwyd yn gywir o ganlyniad i ymgynghoriad buan da gyda'r heddlu a chynnwys erlynydd arbenigol yr oedd ei wybodaeth am ddeinameg TEM wedi bod o gymorth i ddod â'r troseddwr gerbron llys.

# Prif Ganfyddiadau Trosedd Treisio


Ers Ebrill 2008 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ynghylch erlyn troseddau treisio fel rhan o'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod (TEM) yn ogystal â mesur perfformiad o fewn y broses adolygu perfformiad.

Daw data'r CPS o system TG gweinyddol y CPS, ac maent yn cael eu defnyddio i reoli perfformiad mewnol. Fel y cyfryw, ni ddylid cyfri'r rhain fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth. Fel gydag unrhyw system gofnodi fawr, mae'r data hwn yn destun i gamgymeriadau posib gyda mewnbynnu a phrosesu data. Mae'r ffigyrau yn rhai dros dro ac yn destun i newid fel bo rhagor o wybodaeth yn cael ei chofnodi gan y CPS.

## Cyhuddo

Gostyngodd y nifer yr achosion ble penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo diffynnydd o 38.8% o achosion treisio a atgyfeiriwyd i'r Gwasanaeth yn 2007 - 08 i 36.4% yn 2009 - 10. Y mae gwaith pellach ar y gweill i wella'r cyfraddau cyhuddo.

**Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn-cyhuddo ***




| Pob Diffynnydd | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 2,220 | 38.8% | 2,565 | 38.9% | 2,798 | 36.4% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 55 | 1.0% | 43 | 0.7% | 89 | 1.2% |
| Dim erlyniad | 3,025 | 52.9% | 3,511 | 53.2% | 4,186 | 54.5% |
| Pob penderfyniad arall | 422 | 7.4% | 478 | 7.2% | 610 | 7.9% |
| **Cyfanswm** | **5,722** | | **6,597** | | **7,683** | |


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

** Dangosir y penderfyniadau cyn-cyhuddo yn gynwysedig o achosion ble na ddaliwyd yn llawn ddeilliant y penderfyniad yng nghofnodion y CPS. Mae'r ffigyrau presennol felly'n wahanol i'r rheiny yn adroddiad 2007-08*

## Euogfarnau

Yn ystod y cyfnod pedair blynedd o 2006-07, mae'r niferoedd a erlynwyd gan y CPS wedi cynyddu o 17% o 3,264 yn 2006-07 i 3,819 yn 2009-10. Yn y tair blynedd yn diweddu mis Mawrth 2010, erlynwyd dros 10,800 o ddiffynyddion am droseddau yn ymwneud â threisio. Yn gyffredinol cynyddodd erlyniadau o 316 neu 9% o 2007-08 i 2009-10. Mae tabl a siart 2 isod sy'n dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o dair blynedd yn dangos bod euogfarnau wedi codi o 57.7% yn 2007-08 i 59.4% yn 2009-10. Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynnwys achosion a gyhuddwyd yn gyntaf fel treisio, ond ble cafwyd euogfarn am drosedd arall neu drosedd lai.

### Tabl 2 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 2,021 | 57.7% | 2,018 | 57.7% | 2,270 | 59.4% |
| Aflwyddiannus | 1,482 | 42.3% | 1,477 | 42.3% | 1,549 | 40.6% |
| **Cyfanswm** | **3,503** | | **3,495** | | **3,819** | |


Mae'r tabl a siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn ar gyfer troseddau treisio o 2007-08 i 2009-10. Cododd pledio'n euog o 35% i 37%. Gostyngodd nifer yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, yn cynnwys terfynu achosion a'r rheiny ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 23% i ychydig dros 19%.

## Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn

### Euogfarnau




### Canlyniadau Aflwyddiannus




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *795* | *22.7%* | *787* | *22.5%* | *740* | *19.4%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *494* | *14.1%* | *474* | *13.6%* | *488* | *12.8%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 5 | 0.1% | 0 | 0.0% | 14 | 0.4% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 99 | 2.8% | 64 | 1.8% | 62 | 1.6% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 539 | 15.4% | 575 | 16.5% | 691 | 18.1% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 44 | 1.3% | 51 | 1.5% | 42 | 1.1% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **1,482** | **42.3%** | **1,477** | **42.3%** | **1,549** | **40.6%** |
| Ple euog | 1,235 | 35.5% | 1,230 | 35.2% | 1,409 | 36.9% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 786 | 22.4% | 788 | 22.5% | 858 | 22.5% |
| Profwyd yn absenoldeb | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.1% |
| **Euogfarnau** | **2,021** | **57.7%** | **2,018** | **57.7%** | **2,270** | **59.4%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **3,503** | | **3,495** | | **3,819** | |

## Erlyniadau Aflwyddiannus

Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, yn dangos y gyfran sy'n methu oherwydd: materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bo dioddefwr wedi methu mynychu gwrandawiad llys); gwrthdaro mewn tystiolaeth neu amgylchiadau ble'r oedd y tyst yn annibynadwy; absenoldeb elfen gyfreithiol hanfodol; yr effaith ar iechyd meddwl y dioddefwr neu dyst; a rhyddfarnau yn dilyn treial.

O fewn y prif resymau hyn, rhyddfarnau ar ôl treial oedd yn parhau i fod y categori mwyaf, yn codi o 35.8% i 44.7% dros y cyfnod tair blynedd, gyda'r mwyafrif yn rhyddfarnau rheithgor yn hytrach na rhai a gyfeiriwyd gan y barnwr. Gostyngodd Materion Allweddol dioddefwyr ychydig o 18.1% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus i 16.5%. O fewn y 16.5%, a gofnodwyd yn 2009 - 10, gostyngodd dioddefwr yn tynnu'n ôl o ychydig dros 1 pwynt canrannol i 7.4%, tra'r arhosodd achosion ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad neu ble na wnaeth y dioddefwr fynychu yn debyg ar 9.1% o'i gymharu â 9.4% yn y cyfnod cynharach. Gostyngodd gwrthdaro tystiolaeth o ychydig dan 2 bwynt canrannol i 9% tra y gostyngodd tyst neu dystion annibynadwy o bron i 3 phwynt i 10.5% o'r holl resymau dros ganlyniadau aflwyddiannus.

### Tabl 4 - Prif resymau dros Erlyniadau Aflwyddiannus





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu'n ôl | 128 | 8.6% | 111 | 7.5% | 114 | 7.4% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 9 | 0.6% | 23 | 1.6% | 15 | 1.0% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos | 131 | 8.8% | 124 | 8.4% | 126 | 8.1% |
| **Cyfanswm Materion dioddefwyr** | **268** | **18.1%** | **258** | **17.5%** | **255** | **16.5%** |
| Tystiolaeth yn Gwrthdaro | 159 | 10.7% | 164 | 11.1% | 140 | 9.0% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 131 | 8.8% | 141 | 9.5% | 136 | 8.8% |
| Tyst Annibynadwy | 197 | 13.3% | 178 | 12.1% | 162 | 10.5% |
| Effaith ar iechyd meddwl Dioddefwr/Tyst | 14 | 0.9% | 18 | 1.2% | 22 | 1.4% |
| Rhyddfarnau | 530 | 35.8% | 562 | 38.1% | 693 | 44.7% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *1,299* | *87.7%* | *1,321* | *89.4%* | *1,408* | *90.9%* |
| Holl Resymau Eraill | 146 | 9.9% | 111 | 7.5% | 104 | 6.7% |
| Cwblhau gwaith gweinyddol | 37 | 2.5% | 45 | 3.0% | 37 | 2.4% |
| **Cyfanswm** | **1,482** | | **1,477** | | **1,549** | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â *phob* canlyniad. Bu cwymp bach yn niferoedd a chyfran y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr o 268 (7.7%) yn 2007-08 i 255 (6.7%) yn 2009-10. Cwympodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o ychydig dros 42% yn 2007-08 i 41% yn 2009-10.

## Tabl 5 – Cymhariaeth o Brif Faterion Dioddefwyr

### Materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau




### % Materion dioddefwyr




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *268* | *7.7%* | *258* | *7.4%* | *255* | *6.7%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 2,021 | 57.7% | 2,018 | 57.7% | 2,270 | 59.4% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 1,482 | 42.3% | 1,477 | 42.3% | 1,549 | 40.6% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **3,503** | | **3,495** | | **3,819** | |


## Cydraddoldeb:

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw'r diffynyddion. Y gyfran o ddiffynyddion oedd yn ddynion yr un fath ar 99% ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

**Tabl 6 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw'r Diffynnydd**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 38 | 1.1% | 43 | 1.2% | 43 | 1.1% |
| Dynion | 3,465 | 98.9% | 3,451 | 98.7% | 3,774 | 98.8% |
| Ni wyddys | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% | 2 | 0.1% |
| **Cyfanswm** | **3,503** | | **3,495** | | **3,819** | |

**Ethnigrwydd**

Mae data ethnigrwydd data ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytûn ar gyfer y categorïau ethnig 16+1. Yn 2009-10, nodwyd bod 65% o ddiffynyddion trosedd treisio yn Wyn, fel y flwyddyn flaenorol. O'r rhain, dynodwyd 59% yn gategori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 8% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 13% pellach yn Ddu. Ni wnaeth 4% o ddiffynyddion ddatgan eu hethnigrwydd ar arestiad ac ni ddynododd yr heddlu ethnigrwydd y diffynnydd mewn 6% o achosion.

**Oed**


Mae data ar oed diffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS gan gyfeirio at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oed unigol o'r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 18 – 24 oed (23%) a'r rhai rhwng 25-59 oed (59%) oedd y categorïau mwyaf niferus, fel yn 2007-08, ar 22% a 60% yn eu trefn. Roedd bron i 12% o ddiffynyddion wedi eu herlyn am droseddau treisio yn 17 oed neu iau yn 2009-10, fel y ddwy flynedd flaenorol, ac roedd 5% o ddiffynyddion rhwng 60- 69 oed o'i gymharu â 4% yn 2007-08.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Daw'r data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Er gwaethaf gwelliannau mewn cofnodi rhyw o 40% i 64% o'r holl ddioddefwyr, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd menywod, yn codi o 87% yn 2007 – 08 i 89% yn 2009-10.

**Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 1,053 | 34.6% | 1,632 | 42.2% | 2,448 | 57.5% |
| Dynion | 161 | 5.3% | 223 | 5.8% | 294 | 6.9% |
| Ni wyddys | 1,829 | 60.1% | 1,993 | 51.8% | 1,517 | 35.6% |
| **Cyfanswm** | **3,043** | | **3,848** | | **4,259** | |

**Data cydraddoldeb arall**

Mae data ar ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data ar oed o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu – er enghraifft, mae 79% ethnigrwydd y dioddefwr yn parhau heb ei ddatgan neu heb ei ddarparu, a 40% o data band oed wedi ei gofnodi fel heb ei ddarparu, felly nid yw'r data hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad presennol. Mae gwaith yn parhau yn 2010 – 2011 i wella casglu data a'i ansawdd.

## Mesurau Gofal Dioddefwyr mewn achosion o dreisio

Mae'r data yn y tablau a sylwadau isod yn ymwneud ag achosion ble y plediwyd yn ddieuog i o leiaf un drosedd yn y gwrandawiad cyntaf neu ble y bu gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fel treial, Newton[11] neu wrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn a, ble'r oedd yr Uned Gofal Tystion yn rhan o gefnogi'r dioddefwr. Ble bo dioddefwyr a thystion, mewn achosion sy'n arbennig o ddifrifol neu sensitif, yn cael eu cefnogi gan Unedau Heddlu Arbenigol, ni fydd gwybodaeth a ddarparwyd yn dangos y gefnogaeth a roddwyd yn cael ei chynnwys yn y data hwn.

[11] Gwrandawiad Newton yw pan fo diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiad ond ei fod yn dadlau ynghylch sail ffeithiol achos yr erlyniad yn ei erbyn. Fel arfer mae hyn yn golygu fod y diffynnydd yn haeru ei fod wedi chwarae rôl lai yn y drosedd a fyddai'n golygu dedfryd lai. Mae'r broses yn debyg i dreial heblaw nad oes rheithgor.

Yn ystod y cyfnod adolygiad, nid oedd nifer o Ardaloedd CPS naill ai'n defnyddio'r System Reoli Tystion neu'n defnyddio'r system yn llawn; felly nid yw'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn. Bwriedir i'r WMS gael ei ddefnyddio fel system reoli achos ac nid fel arf monitro; felly efallai nad yw data mor gyson neu gadarn â data arall a geir yn yr adroddiad hwn. Dyma'r tro cyntaf i'r data hwn gael ei gynnwys ym Mhennod Prif Ganfyddiadau Trosedd Treisio yn Adroddiad Blynyddol Trosedd TEM y CPS.

## Tabl 8 – Mesurau Diogelwch Tystion Dioddefwyr Trosedd Treisio

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *(i) Atgyfeiriadau i asiantaethau cefnogol neu archwilio cymorth arall* | | |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **2,921** | |
| Atgyfeiriad wedi'i gynnig | 1,583 | 54.2% |
| Atgyfeiriad wedi'i wneud | 985 | 62.2% |
| **Mathau o atgyfeiriadau a wnaethpwyd ****** | | |
| **Cyfanswm atgyfeiriadau** | **1,203** | |
| Atgyfeiriad asiantaeth trosedd casineb | 4 | 0.3%% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Cymorth i Ddioddefwyr | 278 | 23.1% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Gwasanaeth Tystion | 744 | 61.8% |
| Atgyfeiriad arall | 177 | 14.7% |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **2,921** | |
| Archwilio cymorth arall | 1,143 | 39.1% |
| ***(ii) Mesurau mynychu*** | | |
| Yn ofynnol mynychu | 1,834 | 62.8% |
| Presenoldeb gwirioneddol | 1,783 | 97.2% |
| Derbyn ymweliad cyn-treial | 809 | 44.1% |

* mae'r nifer o fathau o atgyfeiriad yn debygol o fod yn fwy na'r nifer o atgyfeiriadau a wnaethpwyd oherwydd y gellir atgyfeirio'r dioddefwr i fwy nag un asiantaeth

** dioddefwyr sy'n gysylltiedig ag achosion ble y cyflwynwyd ple ddieuog ar y gwrandawiad cyntaf neu wrandawiadau cysylltiedig â thystion (treial, treial wedi ei chlywed yn rhannol, gwrandawiad Newton, gwrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn).

## Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth

Yn ystod 2009-10, cynigwyd 1,583 (54.2%) o atgyfeiriadau i ddioddefwyr trosedd treisio yn gysylltiedig ag achosion ble'r oedd ple ddieuog wedi ei chyflwyno neu gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst. O'r rhain, gwnaethpwyd 985 neu 62.2% Gellir gwneud atgyfeiriadau i nifer o asiantaethau cymorth arbenigol ac mae'r data a gasglwyd yn rhoi arwydd fod 61.8% o fathau o atgyfeiriadau wedi eu gwneud i'r Gwasanaeth Tystion, 23.1% i Gymorth i Ddioddefwyr a 0.3% i asiantaeth trosedd casineb. Roedd y 177 neu 14.7% yn weddill yn destun i atgyfeiriad i asiantaeth arall. Gellir atgyfeirio dioddefwr (neu dyst) i fwy nag un asiantaeth.

Hefyd mae'n debygol fod atgyfeiriadau i Gymorth i Ddioddefwyr neu asiantaethau arbenigol wedi cael eu gwneud ynghynt yn y broses cyfiawnder troseddol gan yr heddlu neu asiantaethau eraill. Mae'n debygol y bydd rhai o'r dioddefwyr a atgyfeiriwyd at Gymorth i Ddioddefwyr wedi cael eu hatgyfeirio ymlaen i wasanaeth arbenigol yn dilyn asesiad angen gan yr asiantaeth hon.

Ymchwiliwyd i anghenion cymorth 39.1% o ddioddefwyr trosedd treisio, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst neu ble mae ple ddieuog wedi ei chyflwyno, yng nghyswllt eu presenoldeb yn y llys, fel gofal plant neu gludiant. Derbyniodd 44.1% o ddioddefwyr yr oedd angen iddynt fynychu llys ymweliadau llys cyn-treial.

## Presenoldeb yn y llys

Roedd angen i 62.8% o ddioddefwyr trosedd treisio, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fynychu llys, ac o'r rhain mynychodd 97.2%. Mae'r ffigwr presenoldeb uchel yn awgrymu fod y cymorth a roddir gan yr Unedau Gofal Tystion yn helpu dioddefwyr aros yn gysylltiedig â'r broses cyfiawnder troseddol.

## Mesurau Arbennig

Nid yw data'r CPS ar fesurau arbennig yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Bydd prosiect ymchwil yn cael ei gynnal yn 2010-2011 sy'n amcanu at helpu'r CPS gael mewnwelediad i feysydd ble y gwyddys efallai bod angen gwelliannau; yn cynnwys dynodi'r angen am fesurau arbennig; cyfathrebu rhwng asiantaethau a gyda thystion yngl n â mesurau arbennig; ac amseroldeb ceisiadau mesurau arbennig.

# Troseddau Rhywiol

Mae troseddau rhywiol, heblaw am dreisio, yn parhau i gael eu monitro fel rhan o'r dangosydd TEM chwarterol.

Nid yw data ar gyhuddo a dioddefwyr ar gael ar gyfer troseddau rhywiol fel yr eglurir yn y darn isod.

Arhosodd y gyfran o ddiffynyddion gwrywaidd yr un fath o 2006-2010 ar 95-96%. Roedd 73% o ddiffynyddion yn Wyn, 7% yn Asiaidd a 6% yn Ddu, gyda 3% heb nodi ethnigrwydd ac mewn 6% o achosion pellach ni chwblhawyd y cofnod ethnigrwydd.

Roedd y cynnydd mewn pledio'n euog i 63% yn dangos gostyngiad mewn amser o gyhuddo i ganlyniad, gyda chyfran is angen treial. Cafodd llai o achosion eu terfynu, o ran nifer a chyfran, yn cynnwys y rheiny ble nad oedd tystiolaeth yn cael ei chynnig. Dim ond am ychydig o ***achosion aflwyddiannus*** yr oedd materion dioddefwyr yn cyfrif allan o'r holl achosion yn ôl nifer a chyfran (3%). O'r holl achosion aflwyddiannus, dim ond am 12% o'r rhesymau yr oedd materion dioddefwyr yn cyfrif. Roedd y gyfran fwyaf o ganlyniadau aflwyddiannus oherwydd rhyddfarnau, sef 42%. Fel yn achos treisio, gall hyn ddangos yr angen am fwy o waith aml-asiantaeth gyda phartneriaid, er mwyn ymdrin ag ymwybyddiaeth gyhoeddus a herio mythau a stereoteipiau o fewn a thu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol.

**Mater cydsyniad**

Roedd gan y ddioddefwraig anableddau meddyliol sylweddol o ganlyniad i ddamwain car yn 1982 ble y dioddefodd anafiadau difrifol i'w phen. Roedd y diffynnydd yn hen gyfaill i'r teulu, a oedd yn ymwybodol o'i damwain car a'i hanafiadau dilynol. Daethpwyd o hyd i'r diffynnydd gan gyfaill i'r teulu yn ymosod ar y ddioddefwraig drwy ei chusanu ac anwesu ei bronnau. Yn y cyfweliad, dywedodd y diffynnydd ei fod wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol cydsyniol gyda hi a'i gŵr ers peth amser. O ganlyniad i'w hanableddau meddyliol, aseswyd y ddioddefwraig fel rhywun ag 'anhwylder meddyliol' o fewn ystyr adran 79 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 ac felly'n methu cydsynio i weithgaredd rhywiol. Roedd y diffynnydd yn anghytuno nad oedd gan y ddioddefwraig y cynhwysedd i gydsynio/ gwrthod y fath weithgaredd.

Darparwyd mesurau arbennig i ddefnyddio linc teledu, fideo wedi ei recordio'n barod, a thynnu ymaith gynau a wigiau i'r gŵr roi tystiolaeth. Rhoddodd y cymydog hefyd dystiolaeth. Ni fu raid i'r ddioddefwraig roi tystiolaeth. Cafwyd y diffynnydd yn euog o 'weithgaredd rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddyliol'. Yn awr bydd ar gofrestr troseddwyr rhyw ac mae amodau i beidio â mynd ar gyfyl na chyfathrebu â'r ddioddefwraig am 2 flynedd. Mae'n cael ei reoli o dan Drefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-asiantaeth. Yn awr mae gan y ddioddefwraig gymorth gweithiwr cymdeithasol.

Amlygwyd yr achos fel un o arfer da gan y Panel Craffu Trosedd Casineb lleol.

# Prif Ganfyddiadau Troseddau Rhywiol ac eithrio Treisio

Ers Ebrill 2008 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ar erlyniad troseddau rhywiol (ac eithrio troseddau treisio) fel rhan o'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod (TEM), yn ogystal â mesur perfformiad o fewn y broses adolygu perfformiad.

Daw data'r CPS o system TG gweinyddol y CPS, ac maent yn cael eu defnyddio i reoli perfformiad mewnol. Fel y cyfryw, ni ddylid cyfri'r rhain fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth. Fel gydag unrhyw system gofnodi fawr, mae'r data hwn yn destun i gamgymeriadau posib gyda mewnbynnu a phrosesu data. Mae'r ffigyrau yn rhai dros dro ac yn destun i newid fel bo rhagor o wybodaeth yn cael ei chofnodi gan y CPS.


## Cyhuddo

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw arwydd o benderfyniadau cyn-cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol, gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif gategori trosedd yn cael ei ddyrannu i achosion.

## Euogfarnau

Mae nifer y troseddau rhywiol a erlynwyd wedi gostwng o 4%, o 8,305 yn 2006-07 i 7,972 yn 2009-10. Mae tabl a siart 1 isod yn dangos dadansoddiad o erlyniadau dros y cyfnod o dair blynedd, yn dangos bod euogfarnau wedi cynyddu o 74% yn 2007- 08 i 76% yn 2009-10.

**Tabl 1 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 5,976 | 73.5% | 5,955 | 75.1% | 6,060 | 76.0% |
| Aflwyddiannus | 2,154 | 26.5% | 1,979 | 24.9% | 1,912 | 24.0% |
| **Cyfanswm** | **8,130** | | **7,934** | | **7,972** | |


Mae'r tabl a siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn am droseddau rhywiol o 2007 -08 i 2009-10. Cynyddodd pledio'n euog o 58% i 63%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarn o 76% yn 2009-10 o'i gymharu â 74% yn 2007 - 08. Gostyngodd nifer yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, yn cynnwys terfynu achosion a'r rheiny ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 14% i ychydig dros 11%.

## Tabl 2 – Canlyniadau Erlyn

### Euogfarnau




### Canlyniadau Aflwyddiannus




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *1,140* | *14.0%* | *985* | *12.4%* | *894* | *11.2%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *636* | *7.8%* | *551* | *6.9%* | *489* | *6.1%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 195 | 2.4% | 148 | 1.9% | 137 | 1.7% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 70 | 0.9% | 63 | 0.8% | 61 | 0.8% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 631 | 7.8% | 663 | 8.4% | 709 | 8.9% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 118 | 1.5% | 120 | 1.5% | 111 | 1.4% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **2,154** | **26.5%** | **1,979** | **24.9%** | **1,912** | **24.0%** |
| Ple euog | 4,746 | 58.4% | 4,909 | 61.9% | 5,048 | 63.3% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 1,210 | 14.9% | 1,036 | 13.1% | 1,007 | 12.6% |
| Profwyd yn absenoldeb | 20 | 0.2% | 10 | 0.1% | 5 | 0.1% |
| **Euogfarnau** | **5,976** | **73.5%** | **5,955** | **75.1%** | **6,060** | **76.0%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **8,130** | | **7,934** | | **7,972** | |

## Erlyniadau Aflwyddiannus

Mae Tabl 3 yn rhoi dadansoddiad manylach, yn dangos y gyfran sy'n methu oherwydd: materion dioddefwyr (yn cynnwys dioddefwr yn tynnu'n ôl ac achosion ble bo dioddefwr wedi methu â mynychu gwrandawiad llys); gwrthdaro tystiolaeth, neu pan fo tyst yn annibynadwy; diffyg presenoldeb elfen gyfreithiol hanfodol; effaith iechyd meddwl dioddefwr neu dyst; a rhyddfarnau ar ôl y treial.

O fewn y prif resymau hyn, parhaodd rhyddfarnau ar ôl y treial fel y categori mwyaf, yn cynyddu dros y cyfnod o dair blynedd, o 36.7% i 42.0%. Dengys Tabl 2 bod y mwyafrif o'r rhain yn rhyddfarnau gan reithgor yn hytrach na'u bod wedi eu cyfarwyddo gan y barnwr. Ni newidiodd y prif materion dioddefwyr lawer ar 11.5% yn 2009 - 10 o'i gymharu â 12.5% yn 2007 – 08. Arhosodd gwrthdaro tystiolaeth yn debyg dros bob un o'r tair blynedd diwethaf ar 8.7%, tra y gostyngodd achosion a fethodd oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll a thyst neu dystion annibynadwy.

## Tabl 3 – Prif Resymau dros Erlyniadau Aflwyddiannus





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu'n ôl | 105 | 4.9% | 109 | 5.5% | 85 | 4.4% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 47 | 2.2% | 31 | 1.6% | 26 | 1.4% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos | 117 | 5.4% | 97 | 4.9% | 109 | 5.7% |
| **Cyfanswm Materion dioddefwyr** | **269** | **12.5%** | **237** | **12.0%** | **220** | **11.5%** |
| Tystiolaeth yn Gwrthdaro | 188 | 8.7% | 175 | 8.8% | 167 | 8.7% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 252 | 11.7% | 214 | 10.8% | 213 | 11.1% |
| Tyst Annibynadwy | 156 | 7.2% | 126 | 6.4% | 112 | 5.9% |
| Effaith ar iechyd meddwl Dioddefwr/Tyst | 16 | 0.7% | 23 | 1.2% | 17 | 0.9% |
| Rhyddfarnau | 791 | 36.7% | 790 | 39.9% | 803 | 42.0% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *1,672* | *77.6%* | *1,565* | *79.1%* | *1,532* | *80.1%* |
| Holl Resymau Eraill | 433 | 20.1% | 355 | 17.9% | 328 | 17.2% |
| Cwblhau gwaith gweinyddol | 49 | 2.3% | 59 | 3.0% | 52 | 2.7% |
| **Cyfanswm** | **2,154** | | **1,979** | | **1,912** | |


Dengys Tabl a siart 4 y nifer a chyfran materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau. Gostyngodd nifer a chyfran y rheiny a oedd yn aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr ychydig o 269 (3.3%) yn 2007-08 i 220 (2.8%) yn 2009-10. Gostyngodd cyfanswm canlyniadau aflwyddiannus o ychydig dan 27% yn 2007-08 i 24% yn 2009-10.

## Tabl 4 – Cymhariaeth Prif Faterion Dioddefwyr

### Materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau




### % Materion dioddefwyr




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *269* | *3.3%* | *237* | *3.0%* | *220* | *2.8%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 5,976 | 73.5% | 5,955 | 75.1% | 6,060 | 76.0% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 2,154 | 26.5% | 1,979 | 24.9% | 1,912 | 24.0% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **8,130** | | **7,934** | | **7,972** | |


## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

#### Rhyw

Mae Tabl 5 yn rhoi dadansoddiad o ryw diffynyddion a dioddefwyr yn eu tro. Arhosodd y gyfran o ddiffynyddion gwrywaidd heb newid, ar 96% o'r cyfanswm.

**Tabl 5 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 368 | 4.5% | 359 | 4.5% | 351 | 4.4% |
| Dynion | 7,761 | 95.5% | 7,571 | 95.4% | 7,620 | 95.6% |
| Ni wyddys | 1 | 0.0% | 4 | 0.1% | 1 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **8,130** | | **7,934** | | **7,972** | |

#### Ethnigrwydd

Cesglir data Ethnigrwydd ar ddiffynyddion gan y CPS yn unol â diffiniadau cytunedig y System Cyfiawnder Troseddol i'r 16+1 o gategorïau ethnig. Yn 2009-10, dynodwyd 68% o ddiffynyddion mewn achosion yn ymwneud â throseddau rhywiol ac eithrio trais rhywiol fel rhai'n perthyn i'r categori Prydeinig Gwyn, a chategoreiddiwyd 73% yn Wyn. Dynodwyd 7% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 6% pellach yn Ddu. Nid oedd y cyfrannau hyn wedi newid fawr ers y flwyddyn flaenorol. Ychydig dros 3% o ddiffynyddion a fethodd â dynodi ethnigrwydd ar arestiad, o'i gymharu â 5% yn 2007-08 ac ni ddarparwyd 7% o ethnigrwydd gan yr heddlu, cynnydd o ddau bwynt canrannol ar 2007-08.

#### Oed

Mae data ar oed diffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS gan gyfeirio at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oed unigol o'r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 18-24 oed (17%) a'r rhai rhwng 25-59 oed (66%) oedd y categorïau mwyaf niferus fel yn 2007-08, ar 16% a 65% yn eu trefn. Fel gyda diffynyddion wedi eu herlyn am dreisio, roedd cyfran uwch o ddiffynyddion yn 17 oed neu iau nag mewn trais domestig ar ychydig dros 7% yn 2008-09 a 2009-10 a 9% yn 2007-08. Roedd cyfran uwch o ddiffynyddion a oedd wedi eu herlyn am droseddau rhywiol yn hŷn; ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, roedd 9% o ddiffynyddion rhwng 60-79 oed.

### *(ii) Dioddefwyr*

Ceir data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion ond nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod o ddioddefwyr troseddau rhywiol ac eithrio treisio, gan mai dim ond ar lefel y diffynnydd y cesglir y wybodaeth.

# Priodas dan orfod, Trais Seiliedig ar Anrhydedd a Llurgunio organau rhywiol Menywod

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn hanesyddol wedi cynnwys trais yn seiliedig ar anrhydedd, priodas dan orfod a llurgunio organau rhywiol menywod (FGM) oddi mewn i bolisi a chyfarwyddyd trais domestig. Yn 2010, datblygodd gyfarwyddyd erlyn penodol ar gyfer priodas dan orfod a thrais seiliedig ar anrhydedd. Bydd cyfarwyddyd cyfreithiol i erlynyddion ar FGM yn cael ei ddatblygu yn 2010-11.

Cyhoeddodd y CPS adroddiad ar astudiaeth beilot ar erlyniad achosion priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd yn Rhagfyr 2008. Roedd yr argymhellion yn ffocysu ar dair prif adran:

- erlyniad achosion
- cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion
- baneri achosion i'r dyfodol.

Dechreuwyd ar weithredu'r argymhellion trwy i Grŵp Llywio amlddisgyblaethol, yn cynnwys sefydliadau cymorth, yr heddlu, adrannau llywodraeth, ac academyddion nodedig, gael eu harwain a'u cynghori gan y CPS. Erbyn Rhagfyr 2009, roedd y grwpiau wedi dewis erlynyddion arbenigol i ddelio gyda'r achosion hyn. Cafodd yr erlynyddion hyn eu hyfforddi yn ystod Gwanwyn 2010. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth am ddiffiniadau, cefndir, mesurau i wella diogelwch dioddefwyr a chynhwysedd i roi tystiolaeth ynghyd ag enghreifftiau gwaith achos. Cafodd ei wella'n fawr drwy gyfraniadau Asiantaethau Cymorth Arbennig; Imkaan & Southall Black Sisters, yn ogystal â chyflwyniad a ffilm yn dangos rôl yr Uned Priodas dan Orfod.

Datblygwyd a lansiwyd cyfarwyddyd cyfreithiol ac Aide Memoire yn Ebrill 2010, a oedd yn cadarnhau'r hyfforddiant ac yn helpu i gefnogi'r holl erlynyddion gyflenwi cyngor cadarn. Cyflwynwyd dynodi a fflagio'r achosion hyn fesul cam yn genedlaethol o Ebrill 2010. Bydd hyn yn ein cynghori i fonitro perfformiad a gwella'r ffordd rydym yn delio â'r achosion cymhleth hyn.

Yn ychwanegol at hyfforddiant erlynyddion arbenigol yn ystod 2009 -10, mae'r CPS, yn lleol a chenedlaethol, wedi parhau i gyfrannu at weithio ar draws asiantaethau i godi ymwybyddiaeth am risg a rhannu gwybodaeth berthnasol. I'r diben hwn, mae'r CPS wedi cefnogi'r defnydd o offeryn dynodi risg yr heddlu, D.A.S.H (Camdriniaeth Ddomestig Canlyn ac Aflonyddu a Thrais Seiliedig Ar Anrhydedd).

Mae'r Arweinydd Polisi ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar anrhydedd wedi gweithio gydag arweinwyr Heddlu ac adrannau llywodraeth eraill i ddatblygu ymateb cymunedol cydlynol i helpu rhwystro a lleihau trais seiliedig ar anrhydedd, yn cynnwys priodas dan orfod.

Hyd yma, ni ddaethpwyd ag unrhyw achosion o lurgunio organau rhywiol menywod (FGM) ymlaen i'w herlyn. Fodd bynnag mae'r CPS wedi parhau i wneud erlynyddion yn ymwybodol o'r materion o amgylch y pwnc hwn yn ei hyfforddiant trais domestig ac mae wedi gweithio ar draws y llywodraeth i helpu ymdrin â'r ymarfer hwn. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae'n ffurfio rhan o Strategaeth Trais yn erbyn Menywod traws-lywodraeth ar gyfer 2010 -11. Mae'r Arweinydd Polisi yn rhan o Grŵp Llywio FGM traws-lywodraeth sy'n anelu at ddynodi a chynhyrchu offerynnau ymarferol i helpu dioddefwyr a dioddefwyr posib ymdrin â FGM. Bydd y gwaith yn arwain at gynhyrchu cyfarwyddyd cyfreithiol i erlynyddion yn ystod hydref 2010.

**Treisio trosedd anrhydedd**

Daethpwyd â menyw ifanc i Loegr i briodi'r diffynnydd, a dreisiodd y fenyw ac ymosod arni, gan ei chadw'n garcharor i bob pwrpas yn ei chartref. Gwrthododd ei theulu ei helpu gan eu bod yn credu y dylai aros gydag ef oherwydd byddai gadael yn dwyn gwarth ar y teulu. Nid oedd ganddi unrhyw arian na chefnogaeth. Ni allai siarad Saesneg.

Rhedodd i ffwrdd o'r cartref priodasol a daeth yr heddlu o hyd i lety iddi mewn lloches allan o'r ardal. Cyhuddwyd y diffynnydd ar gyfrifon o dreisio (faginal, geneuol a rhefrol), bygythiadau i ladd ac ymosodiadau. Gweithiodd y CPS yn agos gyda'r heddlu i adeiladu'r achos. Roedd rhaid i'r ddioddefwraig roi tystiolaeth trwy gyfieithydd, a bu'n rhoi tystiolaeth am oddeutu 5 niwrnod.

Cafodd ei euogfarnu ar ôl treial am 19 cyfrif ac ymosodiad corfforol ar y cyfrif terfynol.

# Cam-Drin Plant

Cyhoeddwyd Cyfarwyddyd ar Erlyn Achosion Camdriniaeth Plant yn 2009, gan adeiladu ar *Diogelu Plant – Cyfarwyddyd ar Blant fel Dioddefwyr a Thystion* 2008 a *Pholisi Plant a Phobl Ifanc y CPS* a gyhoeddwyd yn 2006. Mae'r holl ddogfennau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y CPS i weithio gydag asiantaethau eraill i ddiogelu plant.

Cytunwyd ar ddiffiniad y CPS o "gamdriniaeth plant" ym Mawrth 2010, i bwrpas monitro perfformiad yr erlyniad, yn dilyn ymgynghoriad ag erlynyddion arbenigol, grwpiau atgyfeirio allanol a Chadeiryddion Grwpiau. Mae'n cynnwys unrhyw drosedd sy'n dod o fewn meini prawf Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, ar gyfer dioddefwr dan 18 oed, yn cynnwys troseddau corfforol, emosiynol a rhywiol, yn ogystal ag esgeuluso plentyn[12].

Cynrychiolir y CPS ar nifer o grwpiau cenedlaethol sy'n ymdrin ag amrediad eang o faterion plant, megis:

- Grŵp Llawn Diogelu Plant ACPO – yr holl faterion camdriniaeth plant yn cynnwys masnachu mewn pobl, pornograffi plant, cipio, triniaeth wael ac esgeulustod
- gweithgorau a arweinir gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – edrych ar weithredu a.28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (croesholi cyn-treial wedi'i recordio ar fideo) ac ar ddiwygio'r cyfarwyddyd Cyflawni'r Dystiolaeth Orau
- y Pwyllgor Rhyngwyneb Trosedd Teulu - ymdrin â materion sy'n deillio pan fo achosion paralel yn y llysoedd troseddol a theulu.

Ers achos Babi Peter, mae erlynyddion wedi sylwi ar gynnydd sylweddol yn y nifer o achosion yn cynnwys achosion troseddol a theulu a dros y flwyddyn ddiwethaf bu sawl dyfarniad allweddol gan y Llys Apêl a'r Llys Goruchaf, mewn achosion troseddol a theulu yn cynnwys plant. Er enghraifft:

- *R v Barker [2010] EWCA Crim 4* ynghylch rheolaeth achos ac adfocatiaeth briodol mewn achosion troseddol yn cynnwys plant ifanc iawn (yn yr achos hwn, roedd y tyst yn 4 oed);
- *Henderson, Butler and Oyediran [2010] EWCA Crim 1269* ynghylch rheolaeth achos tystiolaeth feddygol gymhleth ac anghyson mewn achosion o "syndrom ysgwyd baban";
- *Re W (Plant) (Achosion Teulu; Tystiolaeth) Mawrth 2010*, dileu'r rhagdybiaeth yn erbyn galw tystion sy'n blant i roi tystiolaeth mewn Achosion Teulu.

Mae argymhellion i'r CPS o'r Adroddiad 2009 yr NSPCC *Measuring Up? Evaluating government commitments to young witnesses in criminal proceedings* wedi cael eu gweithredu, ac mae'r CPS yn parhau i weithio'n agos gyda'r NSPCC ac eraill i wella safonau adfocatiaeth mewn achosion yn cynnwys tystion ifanc.

Er enghraifft, mae'r Cyfarwyddiadau i Adfocatiaid Erlyn y CPS, sy'n mynd gyda phob briff i adfocatiaid allanol, yn cyfeirio'n glir at yr angen i sicrhau technegau cwestiynu priodol ar gyfer pob tyst sy'n blentyn. Mae'r CPS hefyd yn ystyried darparu modiwl hyfforddiant penodol i'w erlynyddion ar ymdrin â thystion sy'n blant neu'n fregus.

[12] Mae'r diffiniad hwn o gam-driniaeth plant y CPS, yn debyg i ddiffiniad y CPS o drais domestig, yn cydnabod y gallai hyn gynnwys amrediad eang o droseddau ac er mwyn sicrhau pa droseddau sy'n cael eu fflagio, rhoddir y crynodeb canlynol. Byddai'r fath achosion fel arfer yn cynnwys, er enghraifft: ymosodiad gan riant ble nad yw ceryddu rhesymol yn amddifyniad; troseddau rhywiol; lladdiad plant; creulondeb plant, yn cynnwys esgeulustod; puteindra plant; aflonyddu; gadael plentyn; priodas dan orfod yn cynnwys person dan 18 oed; pornograffi plant; masnachu mewn plant; cipio teuluol; cam-driniaeth plant hanesyddol ble mae'r dioddefwr yn awr yn oedolyn. Mae achosion ble na fyddid yn disgwyl iddynt gael eu fflagio'n cynnwys: troseddau gyrru ble mae'r plentyn wedi ei anafu neu ei ladd; esgeulustod meddygol neu droseddau eiddo.

**Gweithio aml-asiantaeth**

Mae'r achos isod, ynghyd ag un *R v Barker* [2010] er enghraifft, yn dangos sut y bo'n bosib i erlynyddion gymhwyso ethos Diogelu Plant i achosion unigol – hyd yn oed y rheiny sy'n cynnwys tystion sy'n blant ifanc iawn – pan fo'r holl bobl broffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd.

Roedd y plentyn yn dair a hanner ar adeg y drosedd a dim ond pedair pan roddodd dystiolaeth mewn achos o glwyfo.

Gyda chymorth yr Uned Gofal Tystion, cefnogwr Gwasanaeth Tystion Ifanc arbenigol, cyfryngwr a chyfathrebu ardderchog rhyngddynt a'r heddlu a'r erlynydd, bu modd croesholi'r plentyn mewn dull a oedd yn briodol o safbwynt oed a gallu, fel bod ei gofalwr yn medru dweud wedyn *"Nid wyf yn meddwl ei fod wedi cael effaith negyddol ar X hyd yma, oherwydd rhoddwyd ei hanghenion yn gyntaf bob amser*".

Ar y cychwyn roedd y gofalwr yn ansicr ynghylch gofyn i blentyn mor ifanc roi tystiolaeth. Fodd bynnag, teimlai'r gofalwr fod y Cymorth Tystion Ifanc arbenigol wedi bod yn ardderchog, a theimlai ei bod wedi ei chynnwys yn y paratoad ar gyfer y llys a bod dymuniadau, teimladau ac anghenion y plentyn yn cael eu gosod gyntaf.

Adroddodd y cyfryngwr fod yr Amddiffyniad a'r Barnwr wedi cymryd i ystyriaeth ei holl argymhellion fel bod y plentyn wedi medru ymateb i'r holl gwestiynau a ofynnwyd. Dim ond ychydig o weithiau y bu iddi ymyrryd i ofyn i'r cwnsler beidio rhoi cwestiynau 'tag' iddi. Fel arall roedd yr holl gwestiynau'n fyr a syml ac roedd y plentyn yn medru ymdrin â nhw.

Cafodd yr erlyniad gopïau o dystiolaeth berthnasol o achosion y Llys Teulu, fel tystiolaeth feddygol a thystiolaeth y diffynnydd a mam y plentyn. Tynnwyd fideo o'r plentyn fel yr oedd yn adfer ei chof o'r fideo ABE. Gwelwyd hyn gan seicolegydd ymgynghorol a roddodd farn ddefnyddiol ynglŷn â gallu'r plentyn i roi tystiolaeth.

Cafwyd y diffynnydd yn euog o glwyfo a'i ddyfarnu i 2 flynedd o garchar.

# Prif Ganfyddiadau Troseddau Cam-drin Plant

Dynodir achosion cam-drin plant trwy i'r defnyddiwr CMS roi baner monitro ar yr achos ar y cam cyn-cyhuddo. Hefyd adroddir ar ganlyniadau erlyniad yn ôl categori prif drosedd (lladdiad, troseddau'n erbyn yr unigolyn a throseddau rhywiol), a ddyfernir ar ddiwedd achosion. Dim ond yn ystod 2009-10 y cwblhawyd diffiniad y CPS o gam-drin plant a gytunir yn genedlaethol, felly mae angen peth gofal wrth ddehongli'r data cam-drin plant isod.

Daw data'r CPS o system TG gweinyddol y CPS, ac maent yn cael eu defnyddio i reoli perfformiad mewnol. Fel y cyfryw, ni ddylid cyfri'r rhain fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth. Fel gydag unrhyw system gofnodi fawr, mae'r data hwn yn destun i gamgymeriadau posib gyda mewnbynnu a phrosesu data. Mae'r ffigyrau yn rhai dros dro ac yn destun i newid fel bo rhagor o wybodaeth yn cael ei chofnodi gan y CPS.

Disgynnodd y gyfran o ddiffynyddion gwrywaidd a erlynwyd am laddiad plentyn o 77% yn 2006- 07 i 70% yn 2009-0, gyda llai o euogfarnau ar 79%, o'i gymharu â 87%. Yn yr un modd, disgynnodd y gyfran o ddynion a erlynwyd am droseddau'n erbyn yr unigolyn o 76% yn 2006 - 07 i 73% yn 2009-10, tra bod yr euogfarnau wedi parhau yr un fath ar 72%. Arhosodd y dynion a erlynwyd am droseddau rhywiol yn debyg ar 98% gyda chynnydd mewn euogfarnau o 69% i 76%.

## Lladdiad

Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2010, erlynwyd 143 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant gyda chategori prif drosedd o laddiad. Mae'r categori hwn yn cynnwys achosion am wneud bygythiadau i ladd, cynorthwyo troseddwr yn achos llofruddiaeth, babanladdiad, dinistrio plentyn, ac achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal dan ddylanwad diod neu gyffuriau, yn ogystal â llofruddiaeth a dynladdiad. Disgynnodd euogfarnau o 83% yn 2006-07 ac yn 2009-10.

Amrywiodd y gyfran o ddynion a erlynwyd yn y categori hwn o 77% yn 2006-07 i 70% yn 2009-10. Menywod oedd i gyfrif am y 23% a 30% sy'n weddill.

| | 2006-07 | | | | 2007-08 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dynion | | Menywod | | Dynion | | Menywod | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 20 | 87.0% | 5 | 71.4% | 14 | 70.0% | 6 | 66.7% |
| Aflwyddiannus | 3 | 13.0% | 2 | 28.6% | 6 | 30.0% | 3 | 33.3% |
| **Cyfanswm** | **23** | | **7** | | **20** | | **9** | |

| | 2008-09 | | | | 2009-10 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dynion | | Menywod | | Dynion | | Menywod | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 25 | 78.1% | 8 | 66.7% | 22 | 78.6% | 11 | 91.7% |
| Aflwyddiannus | 7 | 21.9% | 4 | 33.3% | 6 | 21.4% | 1 | 8.3% |
| **Cyfanswm** | **32** | | **12** | | **28** | | **12** | |

## Troseddau yn erbyn yr unigolyn

Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2010, erlynwyd 9,348 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant gyda chategori prif drosedd o droseddau'n erbyn yr unigolyn. Arhosodd yr euogfarnau yn debyg yn 2009-10 i flynyddoedd blaenorol ar 72%.

Disgynnodd y gyfran o ddynion a erlynwyd yn y categori hwn ychydig o 76% yn 2006 – 07 i 73% yn 2009-10.

| | 2006-07 | | | | 2007-08 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dynion | | Menywod | | Dynion | | Menywod | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 1,260 | 71.7% | 408 | 72.9% | 1,269 | 72.0% | 417 | 72.5% |
| Aflwyddiannus | 497 | 28.3% | 152 | 27.1% | 493 | 28.0% | 158 | 27.5% |
| **Cyfanswm** | **1,757** | | **560** | | **1,762** | | **575** | |

| | 2008-09 | | | | 2009-10 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dynion | | Menywod | | Dynion | | Menywod | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 1,107 | 72.1% | 406 | 75.2% | 1,373 | 72.4% | 522 | 72.4% |
| Aflwyddiannus | 429 | 27.9% | 134 | 24.8% | 524 | 27.6% | 199 | 27.6% |
| **Cyfanswm** | **1,536** | | **540** | | **1,897** | | **721** | |

## Troseddau Rhywiol

Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd 15,947 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant gyda chategori prif drosedd o droseddau rhywiol. Cododd euogfarnau o 69% yn 2006-07 i 76% yn 2009-10.

Arhosodd y gyfran o ddynion a erlynwyd yn y categori hwn mwy neu lai'r un fath ar 98% ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf.

| | 2006-07 | | | | 2007-08 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dynion | | Menywod | | Dynion | | Menywod | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 2,607 | 69.3% | 53 | 67.9% | 2,797 | 72.3% | 43 | 58.1% |
| Aflwyddiannus | 1,157 | 30.7% | 31 | 41.9% | 1,069 | 27.7% | 31 | 41.9% |
| **Cyfanswm** | **3,764** | | **78** | | **3,866** | | **74** | |

| | 2008-09 | | | | 2009-10 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dynion | | Menywod | | Dynion | | Menywod | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 2,948 | 74.7% | 63 | 75.9% | 3,085 | 76.0% | 48 | 62.3% |
| Aflwyddiannus | 997 | 25.3% | 20 | 24.1% | 975 | 24.0% | 29 | 37.7% |
| **Cyfanswm** | **3,945** | | **83** | | **4,060** | | **77** | |

# Masnachu Mewn Pobl

Cyhoeddodd y CPS gyfarwyddyd cyfreithiol wedi'i ddiweddaru ar fasnachu mewn pobl ym Mawrth 2009 i adlewyrchu newidiadau polisi pellach; yn enwedig y rheiny a oedd yn deillio o weithrediad Confensiwn Cyngor Ewrop. Roedd y darpariaethau'n cynnwys mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol i alluogi dynodiad dioddefwyr ac atgyfeirio i gefnogaeth; cyfnod adfer ac adfyfyrio o 45 diwrnod a 12 mis o ganiatâd preswylio y gellir ei adnewyddu, i ddioddefwyr sy'n cydweithredu gydag ymchwiliad neu achosion troseddol, neu oherwydd amgylchiadau personol.

Daeth y diwygiad deddfwriaethol, a geisiwyd er mwyn caniatáu erlyn y rheiny sy'n masnachu babanod a phlant ifanc (y rhai na allant roi eu cydsyniad) er mwyn eu hecsbloetio i ennill buddiannau, i rym o 10 Tachwedd 2009. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd polisi pellach ar erlyn y rhai a amheuir a allai fod yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl eu hunain yn Chwefror 2010, i roi mwy o eglurder i erlynyddion ar faterion gorfodaeth a dulliau mwy cynnil o orfodaeth, a ymarferir ar ddioddefwyr masnachu mewn pobl.

Daeth trosedd newydd o lafur wedi'i orfodi i rym ar 6 Ebrill 2010 i ymdrin â'r bylchau mewn deddfwriaeth masnachu mewn pobl o dan adran 4 y Ddeddf Lloches a Mewnfudo. Mae person yn cyflawni trosedd os ydynt yn dal person arall mewn caethwasiaeth neu gaethiwed, neu os ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i berson arall berfformio llafur wedi'i orfodi neu lafur gorfodol. Mae hyn yn cynorthwyo yn yr achosion hynny ble mae'n anodd cael tystiolaeth o fasnachu mewn pobl neu mewn amgylchiadau ble mae dioddefwyr yn agored i ecsbloetiaeth ond na chawsant eu masnachu.

Mae arweinydd Polisi'r CPS yn parhau i gadeirio Grŵp Gofal Dioddefwyr Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU (UKHTC), sydd â chylch gorchwyl i gyfrannu at gyflenwi Cynllun Gweithredu'r DU ar Fasnachu mewn Pobl i ddarparu diogelwch a chymorth i blant ac oedolion sy'n ddioddefwyr masnachu mewn pobl. Mae uwch erlynydd o'r Adran Troseddu Cyfundrefnol hefyd yn cyfrannu at Grŵp Atal UKHTC.

Fel yn 2008-09, rhoddwyd hyfforddiant i erlynydd profiadol ym mhob un o'r 42 o Ardaloedd CPS, i Benaethiaid 14 o'r Unedau Gwaith Achos Cymhleth, ac i erlynyddion sy'n gweithio ym mhob un o'r 3 Adran Gwaith Achos Pencadlys yn 2009 - 10. Mae uwch erlynydd yn cyfrannu at y Grŵp Llywio a arweinir gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU (UKHTC) sy'n dynodi anghenion hyfforddiant ymchwilwyr ac erlynyddion, ac sy'n datblygu deunydd hyfforddiant perthnasol.

Mae'r CPS yn parhau i fod yn aelod o grŵp llywio aml-asiantaeth a arweinir gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU ar fasnachu mewn pobl mewnol o genethod Prydeinig ifanc yn y DU; mae genethod mor ifanc â 12 ac 13 oed yn cael eu paratoi a'u masnachu ar gyfer ecsbloetiaeth rywiol oddi mewn i'r DU. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu'n agos â gwaith traws-Lywodraeth ar baratoi'r cyfarwyddyd diogelu i blant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol ac ar Ffoaduriaid Ifanc a Phlant sydd ar Goll o Ofal a Chartref, a arweinir gan Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Swyddfa Gartref.

Mae'r CPS wedi gweithio'n agos gyda UKHTC yn ystod 2009 -10 i ddatblygu baner electronig ar gyfer achosion masnachu mewn pobl er mwyn dynodi'r achosion a gyhuddwyd ar gronfa ddata'r CPS, sef y CMS. Cychwynnwyd defnyddio'r faner hon ar 1 Ebrill 2010 i ddynodi'r holl achosion o fasnachu mewn pobl a helpu dynodi materion ar gyfer gwella erlyniadau.

Cychwynnodd gwaith yn gynnar yn 2010 ar ddatblygu Datganiad Polisi Cyhoeddus ar fasnachu mewn pobl, i'w gyhoeddi'n gynnar yn 2011. Ei amcan yw codi ymwybyddiaeth o rôl yr erlynydd mewn dod ag erlyniadau gerbron, mynd ar ôl asedau ariannol y masnachwyr mewn pobl, ymdrin â dioddefwyr a fasnachwyd a gwella cydweithio gydag awdurdodaethau eraill. Bydd ymgynghoriad allanol yn rhoi cyfle i

asiantaethau cymorth arbenigol hysbysu a dylanwadu ar ymateb y CPS, yn enwedig wrth annog dioddefwyr i gefnogi achosion troseddol, wedi eu seilio ar eu profiad o gefnogi dioddefwyr a fasnachwyd. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at niferoedd cynyddol o'r achosion yr ydym yn eu herlyn.

Mae'r data a ddarparwyd i'r adroddiad hwn yn dod o Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU am 2009-10. Yn ystod 2009-10 cofnodwyd 208 o arestiadau ar gyfer troseddau masnachu mewn pobl. O'r rhain, roedd 113 am droseddau masnachu mewn pobl i ddibenion ecsbloetiaeth rywiol a 95 ar gyfer ecsbloetiaeth lafur. Yn y flwyddyn flaenorol cofnodwyd 219 o arestiadau, 82 am droseddau o ecsbloetiaeth rywiol, 26 am gaethwasanaeth domestig, a 111 fel llafur gorfodol.

Erlynwyd 65 o ddiffynyddion, 43 o ddynion a 22 o fenywod, yn 2009-10, am droseddau masnachu mewn pobl i ddibenion ecsbloetiaeth rywiol o dan Adrannau 57-59 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 o'i gymharu â 80 o ddiffynyddion yn y flwyddyn flaenorol. Hefyd arestiwyd nifer o'r diffynyddion hyn am droseddau cysylltiedig yn deillio o'r ymchwiliad masnachu mewn pobl. Cafwyd 30 o ddiffynyddion yn euog o un cyhuddiad o leiaf o dan adrannau 57-59 o'r Ddeddf Troseddau Rhywiol. Ni chafwyd euogfarn yn achos 20 o ddiffynyddion a gyhuddwyd o drosedd masnachu mewn pobl ond cawsant euogfarn am droseddau cysylltiedig a gyhuddwyd o ganlyniad i'r ymchwiliad masnachu mewn pobl. Yn yr 15 achos sy'n weddill, cofnodwyd canlyniad aflwyddiannus; ni chynigwyd tystiolaeth mewn 10 o achosion; terfynwyd 2 o achosion; rhyddhawyd 1 achos a thynnwyd 1 yn ôl ac yn yr achos arall cadwyd yr holl gyhuddiadau ar y ffeil.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol Ebrill 09-Mawrth 10, gwnaethpwyd 706 o atgyfeiriadau o ddioddefwyr masnachu mewn pobl posib i'r Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Y cam cyntaf yw penderfynu p'un a oes 'Sail Resymol' (RG) ar gyfer penderfyniad. Derbyniodd 361 o atgyfeiriadau RG positif. Efallai fod rhai achosion wedi eu gohirio oherwydd na wyddys ble'r oedd yr unigolyn, neu fod yr unigolyn wedi tynnu allan o'r NRM. Yna ystyrir Penderfyniad Sail Derfynol (CG) pan fo RG positif wedi'i wneud. Derbyniodd 123 o'r achosion benderfyniad sail derfynol positif erbyn Mawrth 2010, efallai fod rhai achosion wedi eu gohirio oherwydd na wyddys ble'r oedd yr unigolyn, neu oherwydd y cyfnod adfyfyrio o 45 diwrnod nad yw'r penderfyniad CG eto wedi ei wneud a'i fod yn dal yn agored.

Roedd 520 o ddioddefwyr posib masnachu mewn pobl yn fenywod, gyda 96 ohonynt wedi derbyn penderfyniad terfynol positif ac roedd 186 yn ddynion, gyda 27 ohonynt wedi derbyn penderfyniad terfynol positif. Roedd mwyafrif y dioddefwyr posib rhwng 26-30 oed.

**Cydweithredu ar draws y DU ac Iwerddon**

Plediodd tri diffynnydd yn euog i fasnachu mewn pobl o fenywod ar gyfer ecsbloetiaeth rywiol, yn cynnwys nifer o fenywod o Nigeria.

Roedd yr achos yn ganlyniad ymchwiliad ar y cyd rhwng SOCA UK, An Garda Siochana, a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) ynghylch grŵp trosedd cyfundrefnol a oedd yn gweithredu puteindai yn Iwerddon ac yn fwy diweddar yng Nghymru. Credai'r menywod o Nigeria eu bod yn dianc i well bywyd fel trinwyr gwallt, gwniadyddesau, a gweithio mewn siopau. Nid oeddynt yn gwybod fod angen iddynt ddod yn buteiniaid. Cyn gadael Nigeria buont yn destun i ddefodau a oedd ynddynt eu hunain yn frawychus. Roedd y defodau'n clymu'r menywod i gydymffurfio â'r hyn ddywedwyd wrthynt neu fel arall byddai rhywbeth dychrynllyd yn digwydd iddyn nhw neu eu teuluoedd. Roedd y menywod yn destun i gyfundrefn ormesol gyda disgwyl iddynt weithio oriau hir, ac roeddynt yn cael eu symud o buteindy i buteindy. Roedd rhai o'r menywod o Nigeria yn destun i fondiau dyled ac felly nid oeddynt yn ennill dim arian.

Yn y pen draw, cafwyd cyfnod arestiad ar y cyd, ac arestiwyd y diffynyddion ac achubwyd y menywod. Ymgysylltodd tîm Pobl Fregus SOCA gyda'r cyfan o'r menywod a achubwyd, a gyda'r NGO (Ruhama) yng Ngweriniaeth Iwerddon, a roddodd ofal i nifer o'r menywod a achubwyd. Yn ddewr iawn roedd oddeutu 13 o'r menywod yn barod i roi tystiolaeth. Gwnaethpwyd cais am fesurau arbennig a chafwyd y rhain, ar gyfer sgriniau a linc fideo ble'r oedd yn briodol. Roedd y menywod o Nigeria yn byw yng Ngweriniaeth Iwerddon - o ganlyniad gwnaethpwyd cais iddynt roi tystiolaeth o Iwerddon i lys y treial yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lys yn Nulyn eistedd gyda Barnwr Gwyddelig er mwyn sicrhau bod buddiannau'r dioddefwyr yn cael eu diogelu.

Cyn y treial, teithiodd cyfreithiwr y CPS a'r Cwnsler iau i Iwerddon i gwrdd â'r tystion o Nigeria er mwyn egluro proses y Llys ac i ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt (heblaw rai tystiolaethol). Bu hyn yn fuddiol iawn i'r dioddefwyr ac i gynnydd y treial. Cytunodd nifer o'r menywod roi tystiolaeth yng Nghaerdydd tu ôl i sgrin. Cafodd parodrwydd y dioddefwyr effaith bositif amlwg ar y treial oherwydd cynigiodd y diffynyddion bledion euog. Ar ddiwrnod dedfrydu, gwnaethpwyd trefniadau i'r menywod o Nigeria weld y dedfrydu trwy linc fideo yn Nulyn.


Dedfrydwyd y prif ddiffynnydd i saith mlynedd o garchar, yr ail i dair blynedd a hanner am reoli puteiniaid a gwyngalchu arian, a thrydydd i ddwy flynedd am wyngalchu arian.

# Data Ystadegol Masnachu mewn Pobl

Bu'r Ganolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig (UKHTC) mewn bodolaeth ers Hydref 2006, ac yn yr amser hwnnw mae hi wedi cychwyn ar raglen o gasglu data, mewn perthynas â dioddefwyr a phobl ddrwgdybiedig, sy'n gysylltiedig â masnachu mewn pobl (THB), i, oddi mewn, ac allan o'r DU. Mae'r data yn yr adran hon wedi ei gasglu gan yr UKHTC. Dylid cyfeirio ymholiadau yn achos y data i Jo Bartlett (Joanna.bartlett@southyorks.pnn.police.uk), neu UKHTC__Admin@southyorks.pnn.police.uk

**Diffynyddion y Deliwyd â Nhw am Fasnachu mewn Pobl ar gyfer Ecsbloetiaeth Rywiol dan Adrannau 57 - 59 y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003**


**Tabl 1 – Cenedl a Rhyw Diffynyddion sy'n Ymddangos yn y Llys ‡**




| Cenedl | Cyfanswm | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|---|
| Albanian | 3 | 3 | 0 |
| Bolivian | 1 | 0 | 1 |
| Bulgarian | **1** | 1 | 0 |
| Chinese | 8 | 5 | 3 |
| Czech | **4** | 1 | 3 |
| Hungarian | **6** | 4 | 2 |
| Indian | 1 | 0 | 1 |
| Irish | **2** | 1 | 1 |
| Kosovan | 1 | 1 | 0 |
| Latvian | **1** | 1 | 0 |
| Lithuanian | **5** | 4 | 1 |
| Romanian | **20** | 13 | 7 |
| Slovakian | **3** | 2 | 1 |
| South African | 1 | 0 | 1 |
| Thai | 3 | 2 | 1 |
| Turkish | 1 | 1 | 0 |
| UK | **4** | 4 | 0 |
| **Cyfanswm** | **65** | **43** | **22** |

‡ Ffynhonnell Data: Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU **Amlygu mewn coch uchod** = Gwledydd UE (47 o ddiffynyddion = 71%)


**Tabl 2 – Ystod oed y diffynyddion ‡**




| Ystod Oed | Nifer |
|---|---|
| 18 i 20 | 5 |
| 21 i 25 | 14 |
| 26 i 30 | 19 |
| 31 i 35 | 11 |
| 36 i 40 | 6 |
| 41 i 45 | 6 |
| 46 i 50 | 2 |
| 51+ | 2 |
| **Cyfanswm** | **65** |

‡ Ffynhonnell Data: Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU

## Tabl 3 - Ymdriniaeth o'r Diffynyddion yn y Llys




| Math o Ddeilliant | Nifer |
|---|---|
| Euog | 30 |
| Euog o droseddau cysylltiedig – nid masnachu | 20 |
| Dim tystiolaeth wedi'i chynnig | 10 |
| Di euog- terfynu | 2 |
| Di euog- rhyddhau | 1 |
| Di euog- tynnu'n ôl | 1 |
| Di euog- gadael ar y ffeil* | 1 |
| **Total** | **65** |

* Gorwedd ar y ffeil – dangos ple euog a dedfryd am droseddau eraill

## Data Dioddefwyr


### Tabl 4 – Cenedl y dioddefwyr ‡

| Cenedl | Nifer | % |
|---|---|---|
| Albania | 20 | 3% |
| Bangladesh | 17 | 2% |
| Cameroon | 9 | 1% |
| China | 94 | 13% |
| Czech Republic | 23 | 3% |
| Erirea | 8 | 1% |
| Ethiopia | 9 | 1% |
| Gambia | 7 | 1% |
| Ghana | 4 | 1% |
| Guinea | 4 | 1% |
| India | 23 | 3% |
| Indonesia | 7 | 1% |
| Kenya | 5 | 1% |
| Liberia | 4 | 1% |
| Lithuania | 8 | 1% |
| Nigeria | 123 | 17% |
| Pakistan | 14 | 2% |
| Poland | 11 | 2% |
| Romania | 26 | 4% |
| Sierra Leone | 17 | 2% |
| Slovakia | 30 | 4% |
| Somalia | 11 | 2% |
| South Africa | 12 | 2% |
| Sri Lanka | 6 | 1% |
| Thailand | 6 | 1% |
| Uganda | 22 | 3% |
| UK | 38 | 5% |
| Vietnam | 62 | 9% |
| Zambia | 4 | 1% |
| Zimbabwe | 19 | 3% |
| Gwledydd gydag un neu ddau atgyfeiriad | 32 | 5% |
| Gwledydd gyda thri atgyfeiriad | 33 | 5% |
| **Cyfanswm** | **706** | |

‡ Ffynhonnell Data: Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU

- Roedd 706 o atgyfeiriadau, 520 yn fenywod ac 186 yn ddynion.
- Roedd dioddefwyr unigol o Belarus, Benin, Burundi, Chile, Columbia, Congo, Estonia, Nepal, Iran, Irac, Jamaica, Kazakhstan, Kyrgyzstan, Latfia, Malawi, Gogledd Korea, Russia, Seychelles, Sudan, Swaziland, Syria, Togo a'r Wcrain.
- Roedd dau ddioddefwr posib o Brasil, Bulgaria, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, Senegal, a Trinidad aTobago.
- Roedd tri o ddioddefwyr posib o Afghanistan, Angola, Hwngari, Ivory Coast, Malaysia, Moldova, Morocco, Nepal, Philippines, Rwanda, Tanzania

## Tabl 5 – Ystod oed y dioddefwyr ‡





| Ystod Oed | Nifer |
|---|---|
| O dan 10 | 17 |
| 10 i 11 | 6 |
| 12 i 15 | 61 |
| 16 i 17 | 95 |
| 18 i 20 | 84 |
| 21 i 25 | 124 |
| 26 i 30 | 137 |
| 31 i 35 | 70 |
| 36 i 40 | 49 |
| Dros 40 | 63 |
| **Cyfanswm** | **706** |

Dyma'r ystod oed fel y penderfynwyd arno gan y Grŵp Strategol Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (cynllun ble bo dioddefwyr posib masnachu mewn pobl yn medru cael myendiad at fuddiannau neilltuol a chael eu hasesu gan yr Awdurdod Cymwys, naill ai Asiantaeth Ffiniau'r DU neu Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU)

